Rhif: WG52153

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda

Mehefin 2025

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

OGL © Hawlfraint y Goron 2025 ISBN Digidol 978-1-80633-026-3

## Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafodd Llywodraeth Cymru i'n hymgynghoriad – ‘Hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda’.

## Y camau y mae angen eu cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae’r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: Candice.coombs001@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Ar ffurf electronig yn unig y cyhoeddir y crynodeb hwn o’r ymatebion a’r copïau o holl ddogfennau’r ymgynghoriad, ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i ddogfennaeth yr ymgynghoriad: Hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda | LLYW.CYMRU

**Cynnwys** **Rhif y Dudalen**

Cyflwyniad……………………………………………………………………………..…...4

Ymgysylltu a'r ymgynghoriad……………………………………………………………     5

Crynodeb o'r ymatebion: Trosolwg…………………………………………………….   5

Crynodeb o'r ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru……….…………………...6

Atodiad A - Rhestr o'r ymatebwyr …………………………………………………..…54

## Cyflwyniad

Mae gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda yn hanfodol er mwyn sicrhau bod Cymru yn wlad ffyniannus a chynhwysol.  Mae'n hanfodol i gyflawni amcanion cenedlaethol a lleol, cynnig sicrwydd i fusnesau a chymunedau ynglŷn â'r dyfodol a thrawsnewid lleoedd. Fodd bynnag, mae ein gwasanaethau cynllunio yn wynebu heriau a phwysau sylweddol, gan gynnwys effeithiau cyni, rheoli'r gofynion cynyddol ar y system gynllunio, anawsterau recriwtio a phrinder sgiliau.

Lansiwyd y ddogfen ymgynghori ‘Hyrwyddo gwasanaeth cynllunio cydnerth sy'n perfformio'n dda’ ar 15 Tachwedd ac roedd modd cyflwyno ymatebion iddo tan 17 Ionawr 2025. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar gynigion ar gyfer gwella cydnerthedd a pherfformiad awdurdodau cynllunio drwy wneud y canlynol:

- Cynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio – gan gynnwys cynnig llwybr i adennill costau llawn
- Mesur a monitro perfformiad awdurdodau cynllunio drwy ailfywiogi ac ailgyflwyno'r Fframwaith Perfformiad
- Cefnogi cydnerthedd, gallu a galluogrwydd Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) drwy gadw sgiliau, bwrsarïau a phrentisiaethau
- Gwella cydnerthedd ac adnoddau Cyd-bwyllgorau Corfforedig drwy ddarparu gwasanaethau ar y cyd, hybiau sgiliau cynllunio ac ymestyn cyfnod Adolygu Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).

Roedd cyfanswm o 66 o gwestiynau penodol yn y ddogfen ymgynghori, a darparwyd ffurflen safonol er mwyn hwyluso'r broses ymateb. Gofynnodd cwestiynau 1-63 yr ymgynghoriad gwestiynau am ein cynigion ac roedd cwestiynau 64-66 yn ymwneud yn benodol ag effeithiau ein cynigion ar y Gymraeg.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, ymateb Llywodraeth Cymru a'r camau nesaf ac mae'n cynnwys yn benodol:

- Dadansoddiad ystadegol bras o'r safbwyntiau a fynegwyd ar bob cwestiwn (lle y bu modd llunio ystadegau).
- Crynodeb o'r sylwadau a'r materion a godwyd o dan bob cwestiwn neu grŵp o gwestiynau.
- Ymateb Llywodraeth Cymru yn dilyn pob cwestiwn neu grŵp o gwestiynau.

Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion manwl ac ystyriol a gafwyd i'r ymgynghoriad ac rydym wedi'u hystyried yn ofalus. Hoffem ddiolch i bob awdurdod lleol, unigolyn, busnes, corff proffesiynol a sefydliad arall a roddodd o'u hamser i ymateb. Mae eich mewnbwn cyfunol yn amhrisiadwy er mwyn helpu i lywio ein hymateb a'r camau nesaf. Ni fwriedir adlewyrchu pob sylw a gafwyd yn y crynodeb hwn o'r ymatebion ac ni fyddai'n bosibl gwneud hynny. Diben y ddogfen hon yw rhoi trosolwg o'r ymatebion a rhyw syniad o'r mathau o faterion a phryderon a godwyd mewn perthynas â'r cwestiynau a ofynnwyd gennym.

## Ymgysylltu a'r ymgynghoriad

Ar 15 Tachwedd, hysbyswyd mwy na 300 o randdeiliaid, gan gynnwys unigolion a sefydliadau, drwy e-bost fod y ddogfen ymgynghori wedi'i chyhoeddi. Dewiswyd y rhain o'r rhestr ymgynghori graidd a ddelir gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio, yn ogystal â sawl corff a fynegodd ddiddordeb. Roedd hyn yn cynnwys pob ACLl yng Nghymru, cyrff cyhoeddus a phroffesiynol, cynrychiolwyr sectorau busnes a grwpiau arbenigol. Roedd yr ymgynghoriad ar gael ar wefan ymgyngoriadau Llywodraeth Cymru. At hynny, gwnaethom gynnal sesiynau briffio gydag ACLlau a rhanddeiliaid eraill a darparu ymatebion i unrhyw gwestiynau ac esboniadau a geisiwyd mewn perthynas â chynigion yr ymgynghoriad. Cyflwynwyd pob ymateb i'r ymgynghoriad yn electronig.

## Crynodeb o'r Ymatebion – Trosolwg

Cafwyd cyfanswm o 83 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Daeth 81 o ymatebion i law cyn y terfyn amser (neu o fewn estyniad y cytunwyd arno). Mae'r ddau ymateb a gyflwynwyd yn hwyr wedi cael eu dadansoddi a'u cynnwys yn y materion allweddol a godwyd, ond nid ydynt wedi cael eu cynnwys yn y dadansoddiad ystadegol.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr neilltuo eu hunain i un o chwe chategori cyffredinol. Os na chafodd ei nodi, gwnaethom bennu categori yn seiliedig ar farn wybodus. Dengys y tabl isod ddadansoddiad cryno o'r ymatebwyr.

| Categori | Nifer |
|---|---|
| Awdurdodau Cynllunio Lleol (gan gynnwys Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) | 22 |
| Busnes/Ymgynghorwyr | 18 |
| Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus | 10 |
| Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant | 17 |
| Grŵp yn y Sector Gwirfoddol/Grŵp Cymunedol | 4 |
| Arall (grwpiau eraill nas rhestrir) | 10 |
| **Cyfanswm** | **81** |

Dadansoddwyd ymatebion cyffredinol gan ymatebwyr na wnaethant ddefnyddio'r ffurflen safonol ac maent wedi cael eu cynnwys yn y materion allweddol a godwyd a'u priodoli i'r cwestiwn/cwestiynau mwyaf perthnasol, ond nid ydynt wedi cael eu hadlewyrchu yn y dadansoddiad ystadegol sy'n dilyn pob cwestiwn.

Ceir rhestr o'r ymatebwyr a'r categorïau y cawsant eu neilltuo iddynt yn Atodiad A. Lle mae ymatebwyr wedi gofyn yn benodol inni beidio â chyhoeddi eu manylion, byddant yn ymddangos fel ‘dienw’ o dan y categori, ac eithrio unigolion preifat, y bydd pob un ohonynt yn ymddangos fel ‘dienw’ er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

## Crynodeb o'r Ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru

## Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i newid ffioedd ceisiadau cynllunio o ddull codi ar sail canran i ddull adennill costau llawn?

Atebodd cyfanswm o 58 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn ym mhob sector gydag 83% yn cytuno. Ymhlith y safbwyntiau a fynegwyd yn aml yn yr ymatebion roedd y canlynol:

- Ystyrir bod strwythur ffioedd sy'n seiliedig ar adennill costau llawn yn hanfodol i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol mewn gwasanaethau cynllunio a gwella ansawdd a chynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.
- Barn y mwyafrif llethol o ACLlau yw y dylid rhoi dull adennill costau llawn ar waith cyn gynted â phosibl. Dylid ystyried llwybr uniongyrchol neu fyrrach er mwyn lleihau pwysau ariannol a sicrhau y gellir ailfuddsoddi ffioedd i ddarparu adnoddau i adrannau cynllunio a chadw a recriwtio swyddogion cynllunio.
- Mae cefnogaeth i gynnydd mewn ffioedd yn dibynnu ar unrhyw incwm ychwanegol yn cael ei ailfuddsoddi mewn gwasanaethau cynllunio er mwyn gwella darpariaeth a pherfformiad. Roedd y safbwynt hwn yn fwy cyffredin ymhlith sectorau busnes.
- Yn achos y rhai nad oeddent yn cytuno â'r cynnig i gynyddu ffioedd, ar y cyfan byddent yn derbyn cynnydd llai a/neu gyfnod pontio hwy.
- Mae angen eglurder a chanllawiau clir ar ystyr adennill costau llawn. Roedd rhai o'r farn na ddylid cyfyngu'r diffiniad i gost prosesu ceisiadau gan gynllunwyr. Dylai gynnwys amser ac adnoddau ymgyngoreion craidd eraill mewn ACLlau, megis y rhai sy'n ymwneud â SUDS a bioamrywiaeth.
- Lleisiodd rhai sectorau bryderon ynghylch yr effaith ar gwmnïau llai o faint ac ardaloedd gwledig, a'r angen am addasiadau er mwyn sicrhau nad effeithir arnynt yn anghymesur.

## Cwestiwn 2: Ydych chi'n cytuno bod y ‘Llwybr Adennill Costau Llawn’, sy'n sicrhau bod y rhan fwyaf o geisiadau'n adennill costau llawn mewn tair i bum mlynedd, yn ddull priodol?

Atebodd cyfanswm o 57 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn yn y rhan fwyaf o sectorau lle y nododd 53% eu bod yn cytuno â'r cynnig, 35% eu bod yn anghytuno ag ef a 12% nad oeddent yn gwybod. Ar y cyfan, roedd ACLlau o'r farn y dylid rhoi dull adennill costau llawn ar waith nawr neu y dylid ystyried llwybr byrrach o leiaf. Roedd angen adnoddau ar unwaith mewn ACLlau er mwyn mynd i'r afael â diffygion presennol mewn gwasanaethau cynllunio a gallai gohirio cyflwyno dull adennill costau llawn waethygu problemau presennol. Lleisiodd ACLlau yn benodol bryderon bod y llwybr ar gyfer ceisiadau deiliaid tai yn rhy hir. Ymdrinnir â'r sylwadau hyn a'n hymateb fel rhan o gwestiwn 9. Lleisiodd rhai sectorau bryderon ynghylch yr effaith y gallai cynnydd mawr mewn ffioedd ei chael

ar gwmnïau llai o faint a'r angen am addasiadau er mwyn sicrhau nad effeithir arnynt yn anghymesur.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 1 a 2

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth eang i gynigion i gynyddu ffioedd ceisiadau cynllunio er mwyn adennill costau llawn. Yn ein barn ni, mae ein llwybr arfaethedig yn taro'r cydbwysedd priodol rhwng newid i ddull adennill costau llawn ac, ar y un pryd, leihau effeithiau ar geiswyr gan gynnwys cwmnïau llai o faint, drwy roi digon o amser i geiswyr addasu i'r strwythur costau newydd. Bwriadwn barhau â'n dull gweithredu a gaiff ei ddatblygu yn ein polisi cyhoeddedig ar ffioedd a rheoliadau drafft a osodir gerbron y Senedd ar ddiwedd yr haf (yn amodol ar gytundeb y Senedd). Ymdrinnir ag ymateb y Llywodraeth mewn perthynas â 'chlustnodi' a pherfformiad o dan y cwestiwn penodol.

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno y dylai'r categorïau ffioedd hynny na chawsant eu hystyried gan astudiaeth ARUP gael eu cynyddu i linell sylfaen 2024 yn unig a chodi'n unol â chwyddiant bob blwyddyn?

Atebodd cyfanswm o 51 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn ym mhob sector lle y nododd 57% eu bod yn cytuno â'r cynnig, 18% eu bod yn anghytuno ag ef a 25% nad oeddent yn gwybod. Barn gyffredinol yr ymatebwyr oedd, gan nad oedd unrhyw ddata ar gael ar gyfer y categorïau ffioedd hyn, y gellir yn rhesymol gefnogi'r dull hwn. Fodd bynnag, cafwyd consensws y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ymhellach i'r categorïau ffioedd hynny/y mathau hynny o geisiadau nad ymdriniwyd â nhw gan ARUP er mwyn datblygu model adennill costau llawn cynhwysfawr ar gyfer yr holl gategorïau ffioedd a sicrhau dull gweithredu cyson. Ymhlith y safbwyntiau a fynegwyd yn aml yn yr ymatebion roedd pryderon ynghylch mwynau, gwastraff a datblygiadau mwyngloddio nad ymdriniwyd â nhw gan astudiaeth ARUP ac y dylid ymgymryd â gwaith yn y dyfodol i bennu costau ar gyfer y mathau hyn o geisiadau cyn gynted â phosibl.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 3

Rydym yn croesawu cyfraniadau ymatebwyr i'r cwestiwn hwn ac yn nodi'r gefnogaeth gyffredinol o blaid cynyddu ffioedd cyn gwneud cais yn unol â chwyddiant ar gyfer y categorïau ffioedd hynny nad ystyriwyd gan astudiaeth ARUP. Caiff hyn ei ddatblygu yn ein polisi cyhoeddedig ar ffioedd a rheoliadau drafft a osodir gerbron y Senedd ar ddiwedd yr haf (yn amodol ar gytundeb y Senedd). Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gafwyd i lywio adolygiad o ffioedd yn y dyfodol.

## Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i gynyddu ffioedd am Wasanaethau Cyn Gwneud Cais i linell sylfaen 2024, gan ystyried chwyddiant yn unig?

Atebodd cyfanswm o 55 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig hwn ym mhob sector lle y nododd 65% o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno, 20% eu bod yn anghytuno a 15% nad oeddynt yn gwybod. Mae cefnogaeth gyffredinol i'r cynnig i gynyddu ffioedd am wasanaethau cyn gwneud cais gan nad

oes data pellach ar gael ar beth mae adennill costau llawn yn ei olygu ar gyfer y categori ffioedd hwn. Mae sawl ymatebydd yn dadlau dros gynnal adolygiad cynhwysfawr ac ymchwil i ffioedd cyn gwneud cais er mwyn datblygu model adennill costau llawn manwl yn y dyfodol. O blith y rhai nad oeddent yn cefnogi'r cynnig, lleisiodd rhai ymatebwyr bryderon bod cynnydd yn unol â chwyddiant wedi'i ôl-ddyddio i 2016 yn ormodol ac y dylid ei leihau. Codwyd pryderon y gallai cynnydd bach mewn ffioedd atal darpar ddefnyddwyr, yn enwedig y rhai â phrosiectau bach neu gyllidebau cyfyngedig.

Mae llawer o ACLlau o'r farn nad yw'r ffi cyn gwneud cais bresennol, yn enwedig am geisiadau deiliaid tai, yn ddigon uchel i dalu'r costau gwirioneddol yr eir iddynt wrth ddarparu'r gwasanaeth. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod angen cynnydd sylweddol er mwyn sicrhau y caiff y costau llawn eu hadennill. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai dileu'r darpariaethau ‘cynnig am ddim’ ar ôl i gais cynllunio gael ei wrthod annog defnyddio'r gwasanaeth cyn gwneud cais.

Nododd safbwyntiau a fynegwyd yn aml gan yr ymatebwyr hynny sy'n defnyddio gwasanaethau cyn gwneud cais, fod y system bresennol yn anghyson, gydag ansawdd ac amseroldeb ymatebion yn amrywio rhwng ACLlau.  Mae'n well gan y rhan fwyaf o geiswyr y gwasanaethau cynghori cyn gwneud cais pwrpasol sy'n fwy ystyrlon ac effeithiol. Awgrymwyd y dylai fod i wasanaethau cyn gwneud cais ffocws masnachol ac y dylent fod yn gyfrwymol a chynnwys adborth gan ymgyngoreion statudol.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 4

Rydym yn croesawu cyfraniadau ymatebwyr i'r cwestiwn hwn ac yn nodi'r gefnogaeth gyffredinol o blaid cynyddu ffioedd cyn gwneud cais yn unol â chwyddiant, er ein yn nodi bod pryderon ynghylch effeithiolrwydd gwasanaethau cyn gwneud cais a'r strwythur ffioedd cysylltiedig. Bwriadwn barhau â'n dull gweithredu a gaiff ei ddatblygu yn ein polisi cyhoeddedig ar ffioedd a rheoliadau drafft a osodir gerbron y Senedd ar ddiwedd yr haf (yn amodol ar gytundeb y Senedd). Defnyddir y safbwyntiau a'r wybodaeth a gafwyd i lywio adolygiad o ffioedd yn y dyfodol.

## Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i ffioedd cynllunio gael eu haddasu'n flynyddol yn unol â chwyddiant?

Atebodd cyfanswm o 57 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth sylweddol i'r cynnig hwn ym mhob sector lle roedd 91% yn cytuno. Ystyrir bod y dull hwn o weithredu yn fwy effeithiol na'r cynnydd mwy, afreolaidd a welwyd yn y gorffennol. Bydd diweddariadau rheolaidd yn gwella cynaliadwyedd ariannol mewn ACLl ac yn sicrhau bod ffioedd yn adlewyrchu'n gywir y costau yr eir iddynt gan ACLlau, gan atal ffioedd rhag lleihau mewn termau real. Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr y dylid addasu ffioedd tuag i lawr os bydd datchwyddiant er mwyn cefnogi twf economaidd yn ystod dirywiadau ac y dylid ystyried capio cynnydd blynyddol mewn ffioedd er mwyn sicrhau nad yw ffioedd yn cynyddu'n ormodol.

## Cwestiwn 6: Ydych chi'n cytuno mai Mynegai Prisiau Defnyddwyr Banc Lloegr yw'r mesur mynegai mwyaf priodol i'w ddefnyddio?

Atebodd cyfanswm o 54 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn ym mhob sector lle y nododd 69% o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno, 22% nad oeddent yn gwybod a 9% eu bod yn anghytuno. Roedd cytundeb cyffredinol mai Mynegai Prisiau Defnyddwyr Banc Lloegr yw'r mesur mwyaf priodol i'w ddefnyddio. Er i rai ymatebwyr awgrymu y dylid ystyried mesurau eraill megis y Mynegai Prisiau Manwerthu, awgrymodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod y Mynegai Prisiau Defnyddwyr yn fesur clir, gwrthrychol a sicrheir yn annibynnol ac a ddeellir yn eang gan y cyhoedd a fydd yn sicrhau eglurder a chysondeb i randdeiliaid. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at 'Reoliadau Ffioedd' Lloegr a gyhoeddwyd yn 2023 lle y defnyddir dull gweithredu tebyg, ond gwnaethant gyfeirio at y capiau o 10% ar y cynnydd blynyddol mewn ffioedd nad ydynt yn cael eu cynnig yng Nghymru ar hyn o bryd. Awgrymodd rhai cynrychiolwyr o sectorau busnes y dylid copïo'r capiau ar ffioedd er mwyn osgoi cynnydd gormodol mewn ffioedd.

## Cwestiwn 7: Ydych chi'n cytuno bod cyhoeddi ffioedd dri mis cyn i unrhyw gynnydd mewn ffioedd ddod i rym yn rhoi digon o amser ar gyfer trefniadau hysbysu a chyhoeddi ACLlau?

Atebodd cyfanswm o 51 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gref i'r cynnig hwn ym mhob sector lle y nododd 78% o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno, 4% nad oeddent yn gwybod a 18% eu bod yn anghytuno. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno bod cyhoeddi cynnydd mewn ffioedd dri mis ymlaen llaw yn rhoi digon o amser i ACLlau a cheiswyr addasu. Cafwyd consensws cyffredinol y bydd y sefyllfa lle mae'r cynnydd mewn ffioedd yn dod i rym ar 01 Ebrill bob blwyddyn yn sicrhau eglurder a chysondeb. Nododd sawl ymatebydd fod y cyfnod o dri mis yn galluogi ACLlau i ddiweddaru eu gwefannau a'u gohebiaeth, gan sicrhau bod ceiswyr yn cael gwybodaeth lawn am newidiadau sydd ar fin digwydd.

Fodd bynnag, awgrymodd nifer llai o ymatebwyr y byddai chwe mis o rybudd yn fwy buddiol, yn enwedig i ddatblygwyr sy'n cynllunio prosiectau ymhell ymlaen llaw ac y mae angen strwythurau ffioedd sefydlog arnynt at ddibenion cyllidebu. Byddai'r cyfnod hwy hwn hefyd yn helpu i osgoi'r sefyllfa lle mae nifer mawr o geisiadau yn cael eu cyflwyno ar yr un pryd cyn y terfyn amser ar gyfer cynyddu ffioedd. Gofynnodd rhai ymatebion am eglurder ynglŷn â'r dull cyhoeddi a'r amserlenni.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 5-7

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gref i'n cynigion sy'n ymwneud â chynyddu ffioedd bob blwyddyn yn unol â chwyddiant, a'r cyfnod hysbysu o dri mis. Caiff y cynigion hyn eu datblygu yn ein polisi cyhoeddedig ar ffioedd a rheoliadau drafft a osodir gerbron y Senedd ar ddiwedd yr haf (yn amodol ar gytundeb y Senedd). Bydd hyn yn sicrhau bod lefelau ffioedd yn cadw eu gwerth a bydd yn rhoi mwy o sefydlogrwydd ariannol i ACLlau. Er mwyn sicrhau eglurder ynglŷn ag amserlenni a'r dull gweithredu, caiff ffioedd eu haddasu fel a ganlyn. Yn dilyn y cynnydd cychwynnol mewn ffioedd (a ddaw i rym ym mis Tachwedd, yn amodol ar gytundeb y Senedd), byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cynyddu ffioedd bob blwyddyn gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr o'r mis Medi blaenorol ar 01 Ebrill bob blwyddyn yn dechrau yn 2027. Yn ein

barn ni, nid yw'n briodol cynyddu ffioedd ym mis Ebrill 2026 gan y bydd hyn lai na 12 mis o'r cynnydd cychwynnol ac y bydd yn cael effaith negyddol ar geiswyr.

- Ar gyfer y categorïau ffioedd hynny ar y Llwybr Adennill Costau Llawn, byddant yn cynyddu 10% bob blwyddyn *(neu £100, pa un bynnag yw'r mwyaf)* yn ogystal â chwyddiant blynyddol, nes i'r targed adennill costau llawn gael ei gyrraedd. Os bydd datchwyddiant, bydd y ffi yn cynyddu yn unol â'r swm sydd ei angen i adennill costau llawn yn unig.
- Ar gyfer y categorïau ffioedd hynny nad ydynt ar y Llwybr Adennill Costau Llawn, caiff ffioedd eu cynyddu yn unol â chwyddiant yn unig. Os bydd datchwyddiant, ni chaiff y ffi ei haddasu.
- Caiff ACLlau eu hysbysu o leiaf dri mis cyn i unrhyw gynnydd mewn ffioedd gael ei gyhoeddi, er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer trefniadau hysbysu a chyhoeddi.

## Cwestiwn 8: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i leihau'r trothwyon ffioedd amrywiadwy am geisiadau cynllunio amlinellol, llawn a newid defnydd?

Atebodd cyfanswm o 49 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cryn gefnogaeth o blaid lleihau trothwyon ffioedd amrywiadwy lle roedd 69% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, roedd 6% yn anghytuno ac nid oedd 24% yn gwybod. Mae'r rhai sydd o blaid y cynnig yn credu y bydd lleihau trothwyon ffioedd ar gyfer y categorïau hyn yn adlewyrchu costau a chymhlethdod prosesu ceisiadau llai ac yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol i ACLlau. Gwnaethant bwysleisio'n benodol y wybodaeth ychwanegol sydd ei hangen am greu lleoedd, hyfywedd a'r lefel uwch o gymhlethdod oherwydd gofynion amgylcheddol a gofynion o ran cynaliadwyedd sy'n aml yn gofyn am fewnbwn arbenigol. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cysoni'r trothwyon newydd hyn â'r rhai ar gyfer datblygiadau mawr er mwyn sicrhau cysondeb.

Yn achos y rhai a oedd yn anghytuno â'r cynnig, dadleuwyd y gallai'r trothwyon newydd gael effaith anghymesur ar ardaloedd gwledig, lle mae ceisiadau yn llai fel arfer. At hynny, cododd ymatebwyr bryderon hefyd am yr effeithiau ar BBaChau a Datblygwyr Tai Cymdeithasol, gan awgrymu y gallai ffioedd uwch beryglu hyfywedd prosiectau.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 8

Rydym yn croesawu'r gefnogaeth gyffredinol i'r cynnig a gaiff ei ddatblygu yn ein polisi cyhoeddedig ar ffioedd a rheoliadau drafft a osodir gerbron y Senedd ar ddiwedd yr haf (yn amodol ar gytundeb y Senedd). Rydym yn cydnabod y pryderon a godwyd ynghylch yr effeithiau ar ddatblygwyr llai o faint ond yn credu bod ein dull llwybr yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau bod ACLlau yn cael adnoddau priodol a lliniaru'r effeithiau negyddol ar geiswyr.

## Cwestiwn 9: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i gynyddu ffioedd gwneud cais deiliaid tai er mwyn gallu adennill costau?

Atebodd cyfanswm o 57 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gref o blaid cynyddu ffioedd gwneud cais deiliaid tai er mwyn adennill costau. Roedd 75% o'r ymatebwyr o blaid y cynnig, roedd 12% yn anghytuno ag ef ac nid oedd 12% yn gwybod.

Ar y cyfan, roedd y rhai a oedd o blaid y cynnig o'r farn bod y llwybr arfaethedig ar gyfer y ceisiadau deiliaid tai yn rhy hir (tair blynedd). Nodwyd mai hwn yw'r math mwyaf cyffredin o gais y mae ACLlau yn ymdrin ag ef ac y byddai cynnydd sylweddol yn y flwyddyn gyntaf yn sicrhau budd uniongyrchol y mae ei fawr angen i adnoddau ACLlau. Byddai hyn hefyd yn helpu i recriwtio a chadw staff a helpu i recriwtio cynllunwyr lefel mynediad.  Barn a fynegwyd yn aml oedd bod ffioedd i ddeiliaid tai wedi cael eu cadw'n anghymesur o isel ac, yn y dyfodol, y byddai adennill costau llawn yn adfer cydbwysedd yn gyflym a chroesgymhorthdal rhwng datblygiadau deiliaid tai a datblygiadau mwy o faint. Ystyriwyd bod y ffi darged ar gyfer adennill costau llawn, sef £585, yn rhesymol ac na fyddai'n atal ceiswyr, am ei bod yn fach o gymharu â chost gwaith cyffredinol a wneir gan ddeiliaid tai megis estyniadau i dai. Cyfeiriwyd hefyd at y rheoliadau ffioedd yn Lloegr lle mae ffioedd deiliaid tai wedi dyblu'n ddiweddar (£528) ac awgrymwyd y dylai Cymru ystyried gwneud yr un peth.

Awgrymodd rhai ymatebwyr mai dull fesul cam yw'r ffordd orau ymlaen ac awgrymodd eraill fod y ffi arfaethedig yn anghymesur neu'n ormodol ac y gallai gynyddu'r angen am gamau gorfodi gan ACLlau.  Lleisiodd y diwydiant pympiau gwres bryderon y gallai ffioedd uwch am bympiau sydd ynghlwm wrth dai atal ceisiadau rhag cael eu gwneud. Roedd awgrymiadau yn cynnwys lleihau'r ffi neu eithrio pympiau gwres rhag cynnydd mewn ffioedd cynllunio.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 9

Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r gefnogaeth sylweddol o blaid cynyddu ffi deiliaid tai er mwyn adennill costau llawn. Ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd, byddwn yn dileu'r llwybr ar gyfer y ceisiadau deiliaid tai hynny sy'n ymwneud ag ‘ehangu neu wella tai annedd presennol neu eu haddasu rywfodd arall ’ a chynyddu'r ffi i'r targed o adennill costau llawn (£585). Bydd y cynnydd yn rhoi mwy o incwm i ACLlau yn y byrdymor y byddem yn disgwyl iddo wella perfformiad o ran penderfynu ar y ceisiadau hyn a chyfrannu at fuddsoddi yng ngallu a chydnerthedd gwasanaethau cynllunio. Caiff hyn ei ddatblygu yn ein polisi cyhoeddedig ar ffioedd a rheoliadau drafft a osodir gerbron y Senedd ar ddiwedd yr haf (yn amodol ar gytundeb y Senedd).

Rydym yn cydnabod mai un o ganlyniadau anfwriadol posibl ffi uwch fyddai mwy o ddatblygu heb ei awdurdodi. Mae gan ACLlau gyfrifoldeb am gymryd pa gamau gorfodi bynnag y gallai fod eu hangen.

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y Newidiadau Arfaethedig i Hawliau Datblygu a Ganiateir yng Nghymru ar 8 Ebrill am 12 wythnos. Mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn ar newidiadau arfaethedig i Hawliau Datblygu a Ganiateir ar sawl mater gan gynnwys pympiau gwres ffynhonnell aer. Nod y newidiadau arfaethedig i Hawliau Datblygu a Ganiateir sy'n darparu ar gyfer gosod pympiau gwres ffynhonnell aer ar dŷ annedd neu o fewn ei gwrtil yw hyrwyddo

mabwysiadu pympiau gwres o'r fath mewn cartrefi a'i gwneud hi'n haws i ddeiliaid tai osod pwmp gwres ffynhonnell aer.

## Cwestiwn 10: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i gyflwyno ffi is o £85 am y mathau hynny o geisiadau deiliaid tai y cyfeirir atynt yn Rhan 2 (Atodlen 1) Paragraff 7a?

Atebodd cyfanswm o 52 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar y cynnig hwn. Roedd 40% yn anghytuno â'r cynnig, roedd 37% yn anghytuno ag ef ac nid oedd 23% yn gwybod. O'r rhai a oedd yn anghytuno, barn a fynegwyd yn aml oedd bod y ffi arfaethedig, sef £85, gryn dipyn yn is na'r ffi bresennol, sef £230. Roeddent yn dadlau nad yw £85 yn ddigon i dalu'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesu'r math hwn o gais, sy'n aml yn gofyn am waith helaeth, gan gynnwys ymweliadau safle, asesiadau, ystyriaethau cynllunio, gorfodi ac ymdrin ag anghydfodau cymhleth rhwng cymdogion.

Er i rai ymatebwyr fynegi cefnogaeth o blaid ffi is mewn egwyddor, cafwyd cytundeb cyffredinol bod £85 yn rhy isel ar gyfer mathau penodol o waith datblygu megis adeiladau allan mwy o faint ac roeddent o'r farn y gallai'r ffi is fod yn fwy priodol ar gyfer ffensys a waliau a gatiau. Roedd cefnogaeth i'r ffi is mewn perthynas â phympiau gwres ac awgrymodd y rhai yn y diwydiant y dylid ymestyn y ffi is hon i gynnwys prif gategori deiliaid tai.

## Cwestiwn 11: Ydych chi'n credu y caiff deiliaid tai eu hannog i adeiladu ystafelloedd gardd y gellir byw ynddynt yn hytrach nag adeiladu estyniad i'w cartrefi oherwydd y ffi is?

Atebodd cyfanswm o 49 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar y cynnig hwn. Roedd 35% yn anghytuno â'r cynnig, roedd 16% yn cytuno ag ef ac nid oedd 49% yn gwybod. Roedd safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn.

- Mae rhai ymatebwyr yn credu bod hyn yn annhebygol o ddigwydd, gan nodi bod deiliaid tai yn mwyhau eu heiddo drwy gynnwys ystafelloedd gardd ac estyniadau yn yr un cais. Ystyrir bod y ffi yn gost fach o gymharu â chyfanswm y costau datblygu.
- Mae eraill yn awgrymu y gallai'r duedd tuag at adeiladau allan cyfanheddol, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig â gerddi mwy o faint, gynyddu oherwydd y ffi is, a allai arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y fath geisiadau.
- Lleisiodd rhai ymatebwyr bryderon y gallai ffi is arwain at safonau byw is a mwy o ddefnyddiau anawdurdodedig, megis llety gwyliau neu unedau AirBnB.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 10 a 11

Rydym yn croesawu'r ymatebion a gafwyd ac, ar ôl eu hystyried, rydym yn cytuno nad yw ffi is fel y'i cynigir yn adlewyrchu cymhlethdod y mathau hyn o geisiadau na'r adnoddau sydd eu hangen i'w prosesu. At hynny, gallai pennu ffi is sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus arwain at ganlyniadau anfwriadol.

Ni fyddwn yn bwrw ymlaen â lleihau'r ffi ar gyfer y categori hwn. Y ffi wedi'i diweddaru, gan gyfrif am chwyddiant, fydd £283. Caiff hyn ei ddatblygu yn ein polisi cyhoeddedig ar ffioedd a rheoliadau drafft a osodir gerbron y Senedd ar ddiwedd yr haf (yn amodol ar gytundeb y Senedd). Bydd y sylwadau a gafwyd ar newidiadau a awgrymwyd mewn perthynas â diwygio categorïau ffioedd deiliad tai yn llywio adolygiad o ffioedd yn y dyfodol.

## Cwestiwn 12: Ydych chi'n cytuno â'n cynigion i ddyblu'r ffi am geisiadau cynllunio ôl-weithredol?

Atebodd cyfanswm o 56 o ymatebwyr y cwestiwn hwn a mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau. Roedd 52% yn cytuno â'r cynnig, roedd 23% yn anghytuno ac nid oedd 25% yn siŵr.  Roedd mwy o gefnogaeth gan ACLlau o gymharu â'r sectorau eraill lle roedd anghytundeb neu lle roedd y safbwyntiau yn gymysg. Roedd safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn.

- Roedd cefnogwyr yn dadlau y byddai dyblu'r ffi yn helpu i dalu'r costau ychwanegol yr eir iddynt gan ACLlau wrth ymchwilio i achosion gorfodi a'u prosesu ac y byddai'n gweithredu fel arf ataliol rhag datblygu heb ei awdurdodi. Awgrymodd rhai y gallai cyfradd ffi hyd yn oed uwch fod yn fwy effeithiol ac awgrymodd rhai y dylid treblu'r ffi neu roi graddfa symudol ar waith er mwyn adlewyrchu difrifoldeb a chymhlethdod datblygu heb ei awdurdodi.
- Codwyd pryderon ynghylch natur gosbol a goblygiadau y fath gynnydd yn y ffi yn gyffredinol ac ar brosiectau llai (megis datblygiadau deiliaid tai) ac achosion damweiniol o dor-reoliadau. At hynny, nodwyd y gallai'r cynnig olygu bod llai o geisiadau yn cael eu cyflwyno i unioni gwaith datblygu, gan effeithio ar adnoddau a baich gwaith Gorfodi.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 12

Rydym yn croesawu'r ymatebion a gafwyd ac yn ystyried bod y safbwyntiau a fynegwyd, ar y cyfan, yn tynnu sylw at yr angen i ystyried goblygiadau dyblu'r ffi am geisiadau cynllunio ôl-weithredol ymhellach ac yn ofalus a phenderfynu a fyddai hyn yn ddull gweithredu priodol mewn perthynas â phob math o gais. Yn ein barn ni, mae angen cydbwyso'r effaith atal â'r risg o rwystro unioni a sicrhau tegwch yn y strwythur ffioedd. Ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ar hyn o bryd a defnyddir y sylwadau a gafwyd i lywio adolygiad o ffioedd yn y dyfodol.

## Cwestiwn 13: Ydych chi'n credu bod ein ffioedd arfaethedig am gisiadau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl yn adlewyrchiad priodol o'r adnoddau/costau sy'n gysylltiedig â phrosesu'r ceisiadau hyn? Os nad ydych, pa strwythur ffioedd y dylid ei ddefnyddio yn lle hynny?

Atebodd cyfanswm o 49 o ymatebwyr y cwestiwn hwn a mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau. Roedd 49% yn anghytuno bod ffioedd am geisiadau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl yn adlewyrchu'r adnoddau a'r costau sy'n

gysylltiedig â phrosesu ceisiadau, roedd 24% yn cytuno â'r cynnig ac nid oedd 27% yn gwybod. Roedd safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn.

- Roedd y rhan fwyaf o ACLlau o'r farn nad yw'r ffioedd am geisiadau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl yn adlewyrchu'n ddigonol yr adnoddau a'r costau sy'n gysylltiedig â'u prosesu. Ystyriwyd bod yr amser/adnoddau gwirioneddol sy'n gysylltiedig ag ystyried cais (ceisiadau) amlinellol ac yna gais (ceisiadau) sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl ar wahân yn fwy na'r hyn sy'n gysylltiedig â phenderfynu ar gais llawn, a allai gynnwys sawl ymgynghoriad a/neu bwyllgor cynllunio.
- Nodwyd bod materion a gadwyd yn ôl yn fwy cyffredin ar safleoedd datblygu mwy o faint a mwy cymhleth, yn arbennig y rhai a ddatblygir mewn camau dros sawl blwyddyn. Mae ceisiadau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl ond yn cyfrif am ganran fach iawn mewn rhai ardaloedd megis awdurdodau gwledig ac awdurdodau parciau cenedlaethol.
- At hynny, argymhellir y dylid dileu'r terfyn uchaf ar gyfer ffioedd er mwyn galluogi adennill costau llawn, am fod datblygiadau mwy o faint yn aml yn mynd i gostau gweinyddol a chostau ymgynghori sylweddol. Nodwyd nad yw'r ffi benodedig unigol arfaethedig, sef £592, yn adlewyrchu amrywiaeth a chymhlethdod y ceisiadau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl a geir. Roedd rhai awgrymiadau yn cynnwys ffioedd yn seiliedig ar ganran o'r ffi gwneud cais lawn (e.e. 20%) neu ffi benodedig o £1000 yn hytrach na £592.
- Ar y cyfan, mae sectorau busnes yn cefnogi'r strwythur ffioedd presennol a'r cynigion ar gyfer materion a gadwyd yn ôl. Maent o'r farn y dylid parhau i drin materion a gadwyd yn ôl fel cais am ganiatâd cynllunio llawn nes cyrraedd y terfyn uchaf ar gyfer ffioedd, ar ôl hynny cefnogir y ffi benodedig. Nododd sylwadau fod materion a gadwyd yn ôl i bob pwrpas yn cyflawni amodau sy'n ymwneud â manylion penodol, am fod ystyriaethau cynllunio ehangach yn rhan o'r cais amlinellol. Nodwyd hefyd fod safleoedd a ddyrannwyd mewn CDLlau eisoes wedi ymdrin â llawer o ystyriaethau cynllunio drwy bolisïau penodol yn y cynllun, a ategir yn aml gan fframweithiau cysyniad uwchgynllun.
- Ystyriwyd hefyd fod y lefelau ffioedd uchaf yn ddigonol ac y dylai'r llwybr ar gyfer y ffi benodedig fod yn hwy, dros 3-5 mlynedd.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 13

Mae'r ymatebion yn awgrymu amrywiaeth eang o safbwyntiau a barn gymysg mewn perthynas â ffioedd am geisiadau sy'n ymwneud â materion a gadwyd yn ôl. Ystyriwyd amrywiaeth o ffioedd gwneud cais fel rhan o astudiaeth ARUP, gan gynnwys yr hyn y penderfynir ei bod yn adennill costau llawn ar gyfer y ‘ffi gyfradd benodedig’ mewn perthynas â materion a gadwyd yn ôl. At ei gilydd ac ar ôl ystyried y materion a gafwyd yn ofalus, rydym yn bwriadu parhau â'n dull gweithredu a gaiff ei ddatblygu yn ein polisi cyhoeddedig ar ffioedd a rheoliadau drafft a osodir gerbron y Senedd ar ddiwedd yr haf (yn amodol ar gytundeb y Senedd). Caiff y sylwadau a gafwyd mewn perthynas â strwythurau ffioedd amgen eu defnyddio i lywio adolygiad o ffioedd yn y dyfodol.

## Cwestiwn 14: Ydych chi'n credu bod ein ffi arfaethedig ar gyfer Ceisiadau i Adnewyddu yn Atodiad A yn adlewyrchiad cadarn o'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesu'r ceisiadau hyn?

Atebodd cyfanswm o 52 o ymatebwyr y cwestiwn hwn a mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau. Roedd 42% yn anghytuno bod ffioedd adnewyddu yn adlewyrchu'r adnoddau a'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau, roedd 23% yn cytuno â'r cynnig ac nid oedd 35% yn gwybod.

## Cwestiwn 15: A fyddai'n fwy priodol i'r un ffi gael ei chodi am gais adnewyddu â'r cais gwreiddiol am ganiatâd cynllunio sy'n cael ei adnewyddu (naill ai'r ffi lawn neu ffi'r caniatâd amlinellol)?

Atebodd cyfanswm o 52 o ymatebwyr y cwestiwn hwn a mynegwyd amrywiaeth eang o safbwyntiau. Roedd 52% o'r farn y dylid codi'r un ffi am geisiadau adnewyddu ag a godwyd am y cais gwreiddiol, roedd 29% yn anghytuno â'r cynnig ac nid oedd 19% yn gwybod. Roedd safbwyntiau a fynegwyd yn aml ar gyfer cwestiynau 14 a 15 fel a ganlyn:

- Roedd cytundeb ymhlith ACLlau nad yw ffioedd am geisiadau A73 yn ddigonol er mwyn adennill costau llawn am fod A73 yn cwmpasu gwahanol fathau o ddatblygiadau megis terfynau amser ac amrywio amodau a all gymryd cryn dipyn o amser o ran adnoddau, cost a chymhlethdod. Fe'i disgrifiwyd fel ‘man gwan enfawr o ran ffioedd’ sy'n ei gwneud yn bosibl i gynlluniau gwahanol iawn fynd yn eu blaen am ffi nominal.
- Awgrymwyd bod A73 yn rhy eang ac y dylid ei rhannu'n ‘strwythur ffioedd symlach’ er mwyn ystyried y gwahaniaethau mawr mewn ceisiadau. Cyfeiriwyd at newidiadau diweddar i ffioedd yn Lloegr sy'n rhannu A73 yn gategorïau deiliad tai, mân ddatblygiadau a datblygiadau mawr a'r ffaith nad oes modd gwneud cais am gais adnewyddu o dan A73 mwyach.
- Codwyd pryderon ynghylch goblygiadau cyfraith achosion ddiweddar (Achos Armstrong) a nododd yn glir y gellid defnyddio llwybr A73 i gymeradwyo newidiadau sylfaenol i gynlluniau ar yr amod nad ydynt yn mynd yn groes i'r disgrifiad gweithredol.
- Yn aml, mae ceisiadau am estyniad amser yn golygu bod yn rhaid i'r cynnig cynllunio gwreiddiol gael ei ailwerthuso'n drylwyr. Mae'n ofynnol i'r awdurdod cynllunio ystyried unrhyw newidiadau mewn polisïau cenedlaethol neu leol neu amgylchiadau perthnasol eraill a allai effeithio ar y penderfyniad gwreiddiol. Gall y broses hon ofyn am adnoddau sylweddol, gan gynnwys cryn dipyn o amser ac arbenigedd. Yn wahanol i geisiadau syml i amrywio neu ddileu amod, mae cais adnewyddu yn fwy sylweddol a gallai olygu bod angen dadansoddi gwybodaeth newydd yn fanwl.
- Nododd y rhai a oedd o blaid y strwythur ffioedd presennol fod adolygu cais am estyniad amser yn cynnwys yn bennaf gadarnhau a oes unrhyw bolisïau perthnasol wedi newid yn sylweddol. O ganlyniad, roeddent yn dadlau mai ychydig iawn o waith sydd angen ei wneud i asesu'r cais, sy'n golygu bod y ffi arfaethedig yn briodol. Awgrymodd sawl ymatebydd y byddai codi'r un ffi am geisiadau adnewyddu ag a godwyd am y cais gwreiddiol yn ormodol ac yn afresymol.

- Nodwyd y gallai fod angen ceisiadau adnewyddu ar gyfer safleoedd segur oherwydd pryderon ynghylch hyfywedd a chyflawnadwyedd. Dylai cynnydd mewn ffioedd osgoi creu rhwystrau ychwanegol i'r gwaith o gyflawni datblygiad.
- Yn achos y rhai a awgrymodd y byddai ffi amgen yn fwy priodol, roedd sawl ymatebydd o'r farn y dylai fod yr un peth â'r ffi am y cais gwreiddiol sy'n cael ei adnewyddu. Awgrymodd eraill y dylai'r ffi gyfateb i o leiaf 25% o ffi'r cais gwreiddiol ac awgrymodd eraill y byddai 50% yn fwy priodol.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 14 a Chwestiwn 15

Rydym yn croesawu'r ymatebion a gafwyd sy'n awgrymu amrywiaeth eang o safbwyntiau a barn gymysg mewn perthynas â ffioedd am geisiadau adnewyddu. Ystyriwyd amrywiaeth o ffioedd gwneud cais fel rhan o astudiaeth ARUP, gan gynnwys yr hyn y penderfynir ei bod yn adennill costau llawn ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau A73. Bydd y rhain yn gwella'r sefyllfa o ran adnoddau mewn ACLlau ar gyfer y mathau hyn o geisiadau yn sylweddol. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r ymatebion a gafwyd y gellid gwella'r strwythur ffioedd ar gyfer ceisiadau A73. Er mwyn sicrhau na pherir oedi i'r cynnydd mewn ffioedd, defnyddir yr ymatebion a gafwyd i ddatblygu cynigion ar gyfer diwygiadau i A73 a fydd yn rhan o adolygiad o ffioedd yn y dyfodol.  Yn y cyfamser, caiff y cynigion hyn eu datblygu yn ein polisi cyhoeddedig ar ffioedd a rheoliadau drafft a osodir gerbron y Senedd ar ddiwedd yr haf (yn amodol ar gytundeb y Senedd).

## Cwestiwn 16: Ydych chi'n credu y dylid codi ffi am geisiadau sy'n ymwneud â Chydsyniad Adeilad Rhestredig neu Gydsyniad Ardal Gadwraeth?

Atebodd cyfanswm o 53 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar y cynnig hwn. Roedd 60% yn cytuno â'r cynnig, roedd 19% yn anghytuno ac nid oedd 21% yn siŵr.  Roedd safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn.

- Roedd cefnogaeth o blaid cyflwyno ffi am geisiadau sy'n ymwneud â Chydsyniad Adeilad Rhestredig/Cydsyniad Ardal Gadwraeth am eu bod yn cael eu cymorthdalu'n gyfan gwbl gan ACLlau, yn amrywio o ffioedd a bennir ar lefel adennill costau llawn i ffi nominal. Mae'r rhai sydd o blaid y cynnig yn dadlau bod adnoddau staffio a chostau gweinyddol sylweddol yn gysylltiedig â cheisiadau sy'n ymwneud â Chydsyniad Adeilad Rhestredig a Chydsyniad Ardal Gadwraeth, gan gynnwys asesiadau arbenigol a chyhoeddusrwydd, nad ydynt yn cael eu hariannu ar hyn o bryd o dan y strwythur ffioedd presennol.
- Nodwyd hefyd y gallai codi ffi am geisiadau sy'n ymwneud â Chydsyniad Adeilad Rhestredig a Chydsyniad Ardal Gadwraeth sicrhau mantais anghymesur i'r ACLlau hynny â'r nifer mwyaf o geisiadau sy'n ymwneud â Chydsyniad Adeilad Rhestredig/Cydsyniad Ardal Gadwraeth.
- Gallai codi ffioedd wella ansawdd ceisiadau ac annog y defnydd o wasanaethau cynghori cyn gwneud cais, a fyddai'n sicrhau proses fwy effeithlon yn gyffredinol.

- Gallai ffioedd helpu i lywio dull gweithredu mwy cyson rhwng gwahanol awdurdodau cynllunio drwy eu galluogi i fuddsoddi mewn sgiliau, hyfforddiant ac adnoddau.
- Gallai cyflwyno ffioedd osod beichiau ariannol gormodol ar berchenogion eiddo, yn enwedig y rhai na allant optio allan o statws adeilad rhestredig ac sydd eisoes yn wynebu costau cynnal a chadw uchel.
- Rhybuddiodd y rhai a oedd yn erbyn y cynnig y gallai cyflwyno ffioedd atal unigolion rhag gwneud gwaith angenrheidiol i ddiogelu strwythurau hanesyddol a strwythurau treftadaeth, a allai arwain at waith anghyfreithlon heb y cydsyniad priodol.
- Roedd llawer o'r farn bod adeiladau rhestredig yn cyfrannu at ddiwylliant a threftadaeth genedlaethol ac, felly, y byddai parhau â pholisi dim ffi er budd y mwyafrif helaeth o bobl drwy sicrhau bod yr asedau hynny yn cael eu diogelu.
- Awgrymwyd y dylai ffioedd fod yn gymesur â maint a chymhlethdod y cynllun ac y dylid ystyried lleihau neu ddileu ffioedd cyn gwneud cais.
- Argymhellodd nifer bach o ymatebwyr bod angen gwneud rhagor o waith ymchwil er mwyn nodi cost wirioneddol ceisiadau sy'n ymwneud â Chydsyniad Adeilad Rhestredig a Chydsyniad Ardal Gadwraeth ac effaith bosibl cyflwyno ffioedd.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 16

Dengys yr adborth fod consensws ynghylch yr angen am ddull cytbwys o ymdrin â ffioedd am geisiadau sy'n ymwneud â Chydsyniad Adeilad Rhestredig a Chydsyniad Ardal Gadwraeth Er y cydnabyddir yr heriau o ran cyllid ac adnoddau a wynebir gan ACLlau, rhoddir yr un pwyslais ar bwysigrwydd hwyluso diogelu strwythurau treftadaeth heb osod costau gormodol. Rydym yn ddiolchgar i bob ymatebydd a ddarparodd dystiolaeth o gostau a gwybodaeth am adnoddau staffio, nifer y ceisiadau a data ariannol. Gall CADW bennu ffioedd am Gydsyniadau Adeiladau Rhestredig a Chydsyniadau Ardal Gadwraeth o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2023. Caiff ymatebion i'r ymgynghoriad eu hanfon ymlaen i CADW er mwyn i'r asiantaeth benderfynu a ddylid cyflwyno ffioedd am y ceisiadau hyn yn y dyfodol.

## Cwestiwn 17: Ydych chi'n credu y dylid codi ffi am geisiadau sy'n ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed?

Atebodd cyfanswm o 51 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Mynegwyd amrywiaeth o safbwyntiau ar gyfer y cwestiwn hwn. Roedd 55% yn cytuno y dylid cyflwyno ffioedd am geisiadau sy'n ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed, roedd 20% yn anghytuno ac nid oedd 25% yn gwybod.  Roedd safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn.

- Gall ceisiadau sy'n ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed ddefnyddio llawer iawn o adnoddau a gofyn am fewnbwn arbenigol nas cwmpesir gan y strwythur ffioedd presennol. Gall costau gweinyddol ac arbenigedd sylweddol fod yn gysylltiedig â cheisiadau ar gyfer gwaith i goed a ddiogelir gan Orchymyn Cadw Coed, yn arbennig wrth werthuso'r effaith y mae gwaith ar goed yn ei chael ar yr amgylchedd lleol ac ymdrechion cadwraeth. Gallai ffi am geisiadau sy'n ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed fod yn briodol os

bydd yn helpu i dalu'r costau sy'n gysylltiedig ag asesiadau gan arbenigwyr, ymgyngoriadau, ymweliadau safle a chyhoeddusrwydd. Gallai ffioedd hefyd helpu i gefnogi Swyddogion Coed presennol neu gael eu defnyddio i recriwtio rhai newydd.
- Roedd ffioedd a gynigiwyd gan y rhai a oedd o blaid y cynnig yn amrywio o ffi weinyddol fach o £25-£85 hyd at £200 er mwyn adlewyrchu costau prosesu. Argymhellodd rhai ymatebwyr ei bod yn hanfodol gwneud rhagor o waith ymchwil er mwyn pennu lefel adennill costau llawn ar gyfer y ceisiadau hyn cyn rhoi unrhyw ffioedd ar waith.
- Roedd sawl rhanddeiliad yn dadlau yn erbyn gosod ffioedd, gan fynnu bod dynodiadau Gorchmynion Cadw Coed er budd y cyhoedd ac y gallai unrhyw ffioedd atal unigolion rhag cyflwyno ceisiadau priodol a chydymffurfio ag ymdrechion cadwraeth. Er enghraifft, gallai gosod ffioedd beri i berchenogion tir wneud gwaith anawdurdodedig heb y cydsyniad na'r cyngor angenrheidiol, a allai arwain at golli Gorchmynion Cadw Coed pwysig neu gyflawni gwaith ansensitif ar goed a ddiogelir. Mae rhai hefyd yn credu y dylai Gorchmynion Cadw Coed, fel Adeiladau Rhestredig, barhau i fod yn wasanaeth am ddim er mwyn sicrhau bod buddion ehangach i'r cyhoedd yn cael eu cynnal heb feichiau ariannol ychwanegol ar randdeiliaid. Gallai'r risg bosibl i natur a chymeriad y dirwedd fod yn drech na'r buddion.
- Os caiff ffi ei chyflwyno am geisiadau sy'n ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed, mae'n debygol y bydd ffi benodedig fach yn fwy priodol er mwyn lleihau'r risg i natur a'r dirwedd. Lleisiwyd pryder y gallai ffioedd gormodol atal unigolion rhag gwneud ceisiadau, a allai arwain at fwy o waith gorfodi cynllunio.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 17

Dengys yr adborth fod consensws ynghylch yr angen am ddull cytbwys o ymdrin â ffioedd am geisiadau sy'n ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed. Er y cydnabyddir yr heriau o ran cyllid ac adnoddau a wynebir gan ACLlau, rhoddir yr un pwyslais ar bwysigrwydd hwyluso cadw coed heb osod costau gormodol. Rydym yn ddiolchgar i bob ymatebydd a ddarparodd dystiolaeth o gostau a gwybodaeth am adnoddau staffio, nifer y ceisiadau a data ariannol.

Ar ôl gwerthuso'r ymatebion a gafwyd yn ofalus, nid ydym yn cynnig y dylid cyflwyno ffioedd am geisiadau sy'n ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed ar hyn o bryd. Mae angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn. Defnyddir yr ymatebion a'r wybodaeth a gafwyd i lywio cynigion ar gyfer codi ffioedd am geisiadau sy'n ymwneud â Gorchmynion Cadw Coed yn y dyfodol, a ystyrir mewn adolygiad dilynol o ffioedd.

## Cwestiwn 18: A oes unrhyw fathau o geisiadau na chodir ffioedd amdanynt ar hyn o bryd lle y dylai ffi fod yn ofynnol?

Atebodd cyfanswm o 42 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, gyda 38% ohonynt yn gwneud awgrymiadau. Roedd safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Dylid dileu'r “cynnig am ddim”. Mae'n atal ceiswyr/asiantiaid rhag cymryd rhan y broses cyn gwneud cais gan y gallant brofi cyflwyniadau gwael drwy'r

broses cais cynllunio ffurfiol gan wybod na fyddai angen iddynt dalu ffi am ailgyflwyno cais os caiff yr un gwreiddiol ei wrthod. Mae'r arfer hon yn tanseilio'r egwyddor o gyflwyno ceisiadau wedi'u paratoi'n dda â gwybodaeth gadarn ar ddechrau'r broses. Felly, dylid codi'r ffi lawn am geisiadau sy'n cael eu hailgyflwyno. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r ffi ofynnol gyfateb i o leiaf 50% o'r ffi lawn.

- Dylid codi ffioedd am adolygiadau cyfnodol o ganiatadau cynllunio mwynau oherwydd yr adnoddau sylweddol sydd eu hangen. Mae ystyriaeth a phenderfyniad yr adolygiad cyfnodol o ganiatâd mwynau yn defnyddio llawer iawn o adnoddau'r ACLl. Mae angen i lawer ohonynt gael eu hategu gan Ddatganiad Amgylcheddol ac mae'r penderfyniad sy'n deillio ohonynt yn gydsyniad datblygiad newydd y mae angen i'r ACLl ei gynhyrchu heb ffi.
- Ceisiadau y mae dileu hawliau datblygu a ganiateir drwy amodau cynllunio neu Gyfarwyddiadau Erthygl 4 yn effeithio arnynt.
- Ceisiadau i dynnu gwrych.
- Dylai eithriadau rhag ffioedd ar gyfer datblygiadau i bobl anabl barhau, ond dylid dileu'r disgownt i Gynghorau Tref/Cymuned.
- Ceisiadau am farn sgrinio/cwmpasu.
- Yn aml, mae amrywio cytundebau a106 yn cynnwys cryn dipyn o fewnbwn gweinyddol ac arbenigol. Byddai ffi fach (yn cyfateb i gais deiliad tŷ) yn helpu i adennill costau.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 18

Rydym yn croesawu'r holl ymatebion ac awgrymiadau a gafwyd a ddefnyddir i lywio adolygiad o ffioedd yn y dyfodol.

## Cwestiwn 19: Ydych chi'n credu y dylai'r incwm ychwanegol a fydd yn deillio o'r cynnydd arfaethedig i ffioedd gael ei glustnodi ar gyfer gwariant o fewn adrannau cynllunio ACLlau?

Atebodd cyfanswm o 56 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cryn gefnogaeth i'r cynnig gydag 84% o'r ymatebwyr yn nodi eu bod yn cytuno mewn egwyddor y dylid clustnodi ffioedd gwneud cais, 5% eu bod yn anghytuno ac 11% nad oeddent yn gwybod.

## Cwestiwn 20: Beth yw'r heriau/rhwystrau presennol sy'n gysylltiedig â chlustnodi ffioedd cynllunio mewn adrannau cynllunio?

Atebodd cyfanswm o 38 o ymatebwyr y cwestiwn hwn gan gyflwyno safbwyntiau ac awgrymiadau mewn perthynas â'r rhwystrau sy'n gysylltiedig â chlustnodi ffioedd cynllunio.

## Cwestiwn 21: Er mwyn helpu ACLlau i glustnodi ffioedd cynllunio, ydych chi'n credu mai dim ond os cafwyd ymrwymiad ysgrifenedig gan ACLl i gynyddu ffioedd y dylai Llywodraeth Cymru wneud hynny?

Atebodd cyfanswm o 53 o ymatebwyr y cwestiwn hwn a chafwyd amrywiaeth o safbwyntiau.  Roedd 49% o'r ymatebwyr yn cytuno mai dim ond os cafwyd ymrwymiad ysgrifenedig i wneud hynny y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu ffioedd, roedd 36% yn anghytuno â'r cynnig a nododd 15% nad oedd yn gwybod.

Mae safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel rhan o gwestiynau 19-21 fel a ganlyn:

- Mae clustnodi yn hanfodol er mwyn i wasanaethau cynllunio allu adfer o'r llinell sylfaen bresennol a sicrhau eu cydnerthedd parhaus. Dylid clustnodi cynnydd mewn ffioedd er mwyn sicrhau bod cyllid yn cefnogi'n uniongyrchol welliannau mewn perfformiad ac atebolrwydd, adnoddau, staffio a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Rhaid ei gwneud yn ofynnol i ACLlau glustnodi'n ddeddfwriaethol ffioedd gwneud cais ar gyfer gwella'r gwasanaeth hwnnw ac wynebu cosbau os na fydd hyn yn digwydd.
- Dylai incwm o ffioedd cynllunio gael ei gofnodi mewn ffordd dryloyw a'i gymharu â chyfartaleddau blaenorol a dylid rhoi esboniadau manwl o'r ffordd y mae wedi cael ei ailfuddsoddi.
- Mae gan ACLlau strwythurau gwahanol ac maent yn mesur y costau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau rheoli mewn ffyrdd gwahanol. Byddai rhoi trefniadau clustnodi ar waith yn broses gymhleth oherwydd gwahanol ffactorau cydgysylltiedig ac ariannol. Nodwyd bod rhai ACLlau eisoes yn clustnodi eu ffioedd naill ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol. Nodwyd, hyd yn oed gyda'r cynnydd arfaethedig mewn ffioedd, na fydd pob ACLl yn adennill costau llawn ac y bydd angen cymhorthdal o gyllidebau ehangach ACLlau o hyd. Am y rheswm hwn mae hyblygrwydd yn hanfodol.
- Gall heriau fod yn gysylltiedig â chlustnodi ffioedd oherwydd y nifer amrywiol o geisiadau a geir a chymhlethdodau o ran adrodd ariannol.  Mae risg y disgwylir i ACLlau fod yn gwbl hunangynhaliol o ran cyllid a gall yr incwm a gynhyrchir o ffioedd bob blwyddyn amrywio'n fawr. Byddai hefyd angen i bob ACLl gytuno ar y newid hwn yn ei reolau sefydlog/cyfansoddiad drwy'r Swyddog A.151 ac mae'n annhebygol o gael ei gefnogi am fod incwm ychwanegol o ffioedd cynllunio weithiau yn cael ei ddefnyddio i gynnal gwasanaethau eraill.
- Dylai Llywodraeth Cymru helpu ACLlau i 'gario ffioedd drosodd' am fod gwaith ar geisiadau yn aml yn rhychwantu blynyddoedd ariannol. Er bod rhai ACLlau yn gwneud hyn, nid yw pob tîm cyllid yn hwyluso trafodaethau o'r fath. Mae'r dull hwn o weithredu yn fuddiol mewn blynyddoedd proffidiol ond gall oedi mewn prosesau recriwtio tra'n aros i bethau wella niweidio'r gwasanaeth.
- Mae risg y gallai clustnodi incwm o ffioedd cynllunio olygu bod yn rhaid i ACLlau leihau cyllideb y swyddogaeth gynllunio yn y dyfodol, sy'n golygu, ar ôl i'r ffi gynyddu, nad oes fawr ddim arian ychwanegol ar gael er mwyn gwella'r gwasanaeth mewn gwirionedd.
- Os caiff clustnodi ei gwneud yn orfodol, yna bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau clir ar y mater hwn gan gynnwys diffinio 'beth yw'r gwasanaeth rheoli datblygu'.
- Dylai Llywodraeth Cymru ymddiried mewn ACLlau i glustnodi ffioedd. Gallai strwythur ffioedd dwy haen, lle mae cynnydd mewn ffioedd ond yn cael ei dderbyn gan yr ACLlau hynny sy'n ymrwymo'n ffurfiol i glustnodi ffioedd, beri

dryswch ac arwain at anghydraddoldebau/anfantais economaidd ranbarthol. Dylai cynnydd mewn ffioedd gael ei gyflwyno'n unffurf ledled Cymru.

- Rôl allweddol Pennaeth yr Adran Gynllunio yw rhoi cyngor i ACLlau ar oblygiadau gofodol a goblygiadau seiliedig ar le penderfyniadau a buddsoddiadau yn y byrdymor, y tymor canolig a'r tymor hwy. Gall Penaethiaid Cynllunio cryf helpu i hyrwyddo clustnodi ffioedd.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 19-21

Mae'n amlwg o'r ymatebion, er bod cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o glustnodi ffioedd cynllunio, y cydnabyddir bod heriau, yn ymarferol, yn gysylltiedig â'r dull hwn o weithredu a chyfeiriwyd at y materion hyn yn aml yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Rydym yn disgwyl i ACLlau ailfuddsoddi ffioedd cynllunio yn eu gwasanaethau cynllunio ac rydym wedi nodi'n glir fod yn rhaid i gynnydd mewn ffioedd ac unrhyw fesurau i greu adnoddau mewn ACLlau ddigwydd ar yr un pryd â chynnydd amlwg mewn perfformiad. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd yn cymryd amser i effaith cynnydd mewn ffioedd arwain at well adnoddau a pherfformiad o gymharu â'r llinell sylfaen bresennol.

Ar ôl ystyried yr ymatebion a gafwyd yn ofalus, ni fyddwn yn deddfu er mwyn clustnodi ffioedd cynllunio ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa yn agos a byddwn yn ystyried y risg a'r manteision sy'n gysylltiedig â phob opsiwn sydd ar gael mewn perthynas â chlustnodi ffioedd gwneud cais.

Er mwyn gwerthuso effaith cynigion nawr ac yn y dyfodol y bwriedir iddynt wella effeithiolrwydd, cydnerthedd a gallu gwasanaethau cynllunio a sicrhau bod perfformiad yn cael ei fonitro'n effeithiol, mae'r Fframwaith Perfformiad wedi'i ailgyflwyno o 1 Ebrill 2025. Byddwn yn newid y fframwaith perfformiad er mwyn sicrhau bod ACLlau yn adrodd ar ffioedd ceisiadau cynllunio mewn Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a gyflwynir yn 2027. Gweler ein hymateb i'r cwestiynau penodol sy'n ymwneud â monitro perfformiad). Os bydd data a ddarperir gan y fframwaith yn dangos nad yw ffioedd cynllunio yn cael eu defnyddio i wella'r gwasanaeth cynllunio, byddwn yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth i glustnodi ffioedd.

## Cwestiwn 22: Ydych chi'n cytuno y dylai apelyddion dalu ffi i gyflwyno apêl?

Atebodd cyfanswm o 54 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r egwyddor o godi ffi am gyflwyno apêl lle roedd 61% yn cytuno â'r cynnig, roedd 19% yn anghytuno ac nid oedd 20% yn gwybod. Mae ymatebwyr o wahanol sectorau wedi mynegi safbwyntiau gwahanol ynghylch cyflwyno ffioedd am apeliadau. Ar y cyfan, roedd ACLlau o blaid y cynnig. Fodd bynnag, mynegwyd amheuon gan lawer yn y sectorau busnes megis datblygwyr tai, cymdeithasau tai a'r datblygwyr ynni a'r diwydiannau mwynau. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd amlaf fel a ganlyn:

- Nododd ymatebwyr y pwysau ar Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru gan awgrymu y gallai incwm o apeliadau, petai'n cael ei ail-fuddsoddi, wella adnoddau, atal apeliadau di-sail a lleihau'r baich ar y trethdalwr.
- Mae ymatebwyr o'r farn bod codi ffi i apelio yn tanseilio mynediad at gyfiawnder naturiol. Maent yn tynnu sylw at faterion sy'n ymwneud â thegwch, yn arbennig ar gyfer apeliadau yn erbyn methiant i benderfynu (lle nad yw'r ceisydd wedi cael y gwasanaeth y talodd amdano) neu apeliadau yn erbyn penderfyniadau i wrthod a wnaed yn groes i argymhelliad swyddogion (sydd â chymhelliant gwleidyddol yn aml) yng nghyfarfod y pwyllgor cynllunio. Awgrymodd llawer o ymatebwyr y dylai'r categorïau hyn fod wedi'u heithrio rhag ffioedd am apeliadau.
- Codwyd pryderon ynghylch yr effaith ar ddatblygwyr llai o faint, unigolion a chymunedau. Dadleuwyd y gallai ffioedd uwch atal y cyhoedd rhag cymryd rhan, cyfyngu heriau i'r rhai ag adnoddau ariannol a thanseilio ymwneud democrataidd. Mae cydbwyso costau gweinyddol â mynediad at gyfiawnder yn ystyriaeth hanfodol.
- Dylai fod cymalau ‘ad-dalu’ os na chaiff apeliadau eu prosesu mewn modd amserol. Os caiff taliadau am apeliadau eu cyflwyno, rhaid bod rhwystrau a gwrthbwysau er mwyn sicrhau bod perfformiad Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn ddigonol ac y penderfynir ar apeliadau yn brydlon heb oedi. Nodwyd bod yn rhaid i wasanaeth am dâl ddangos gwelliant sylweddol i wasanaethau o gymharu â'r hyn a welir ar hyn o bryd.
- Awgrymodd rhai ymatebion y dylid ad-dalu ffioedd ar gyfer apeliadau llwyddiannus neu os methodd yr ACLl â phenderfynu ar gais yn brydlon.
- Os caiff ffioedd am apeliadau eu cyflwyno, dylid adolygu effaith hynny ar y gyfundrefn costau apeliadau a'r safonau ar gyfer ymddygiad afresymol sy'n ymwneud â'r ffi gwneud cais. (Ymdrinnir â'r ymatebion mewn perthynas â'r system gostau o dan gwestiwn 23)
- Mae ACLlau yn mynd i gostau sy'n gysylltiedig ag apeliadau, gan gynnwys cyngor arbenigol, cynrychiolaeth gyfreithiol a mynd i Wrandawiadau neu Ymchwiliadau. Rhaid iddynt ymateb i ymholiadau gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru, awgrymu amodau ac ymdrin â gwybodaeth gan apelyddion, sy'n aml yn gofyn am fewnbwn gan ecolegwyr cynllunio. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid ad-dalu costau sy'n gysylltiedig ag apeliadau fel llogi lleoliad, cyfieithu a chyfarpar sain i ACLlau. Gellid cyflwyno ffi ychwanegol am wrandawiadau neu ymchwiliadau apêl wyneb yn wyneb er mwyn talu'r costau hyn.
- Codwyd pryderon ynghylch yr effaith ar ddatblygiadau ynni a all fod yn ddadleuol ac sy'n aml yn destun apêl yn y pen draw. Cyfeiriwyd hefyd at newidiadau diweddar lle y penderfynir ar brosiectau â chapasiti cynhyrchu o fwy na 50MW gan ACLlau ar ôl i Ddeddf Seilwaith (Cymru) 2024 gael ei rhoi ar waith. Codwyd pryderon, os bydd ffioedd cynllunio a ffioedd am apeliadau gyda'i gilydd yn llawer uwch yng Nghymru nag yn yr Alban neu Loegr, y gallai hyn atal datblygiadau ynni yng Nghymru.
- Mae angen ystyried effaith gyfunol dyblu'r ffi am geisiadau ôl-weithredol a chyflwyno ffi i apelio yn erbyn penderfyniad ar gais ôl-weithredol.

## Cwestiwn 23: Ydych chi'n cytuno bod y system ‘gostau’ yn cynnig dull addas o adennill costau, a all gynnwys y ffi apelio, yn dilyn ymddygiad afresymol gan unrhyw barti?

Atebodd cyfanswm o 52 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol i egwyddor y systemau gostau lle roedd 54% yn cytuno â'r cynnig, roedd 17% yn anghytuno ac nid oedd 29% yn gwybod. Roedd safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno, at ei gilydd, y dylai fod cosb am ymddygiad afresymol ac mai'r system gostau oedd y mecanwaith mwyaf priodol ar gyfer hyn. Awgrymwyd bod y system gostau yn sicrhau bod partïon yn ymddwyn yn rhesymol ac nid ydynt yn mynd ati i beri oedi i geisiadau na'u rhwystro, megis cyflwyno apeliadau di-sail neu achosi materion gweithdrefnol diangen. Drwy wneud partïon yn atebol am eu hymddygiad, mae'n annog penderfyniadau a gweithredoedd mwy cyfrifol a rhesymedig yn ystod y broses cynllunio ac apelio. Mae'r system yn darparu ar gyfer adennill costau, gan gynnwys y ffi apelio, os ystyrir bod ymddygiad unrhyw barti yn afresymol. Gall hyn ddarparu iawndal i'r parti a fu'n destun gweithredoedd neu oedi afresymol. Gall penderfynu beth sy'n gyfystyr ag "ymddygiad afresymol" fod yn benderfyniad goddrychol. Fodd bynnag, at ei gilydd, gall y system gostau ddarparu mecanwaith addas i adennill costau.
- Mae'r rhai sy'n anghytuno yn dadlau bod y trothwy ar gyfer costau sy'n gysylltiedig ag 'ymddygiad afresymol' yn rhy uchel ar gyfer apelyddion ac ACLlau, sy'n golygu mai anaml y defnyddir yr opsiwn hwn. Awgrymwyd, ar y cyfan, mai dim ond yr achosion hynny sy'n ymwneud â chydymffurfedd gweithdrefnol, yn hytrach na 'chydbwysedd cynllunio,' sy'n cael eu hystyried yn werth chweil. Awgrymodd rhai ymatebwyr fod rhai ACLlau hefyd yn amharod i wneud cais am gostau oherwydd y ffordd y gallent ymddangos i'r cyhoedd ac oherwydd yr amser ychwanegol sydd ei angen i wneud y cais. Ni ddylid defnyddio'r gweithdrefnau costau i wneud iawn am gostau apelio mewn achosion lle roedd penderfyniad i wrthod yn benderfyniad y gellir ei gyfiawnhau.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr fod y system gostau yn rhy gymhleth a'i bod yn cael ei hosgoi'n aml gan ddatblygwyr oherwydd yr effaith ar gydberthnasau ag ACLlau.
- Roedd rhywfaint o gefnogaeth o blaid diwygio'r diffiniad o ‘ymddygiad afresymol’ a ‘gostwng y bar’. Awgrymodd rhai ymatebwyr nad yw'r system gostau yn dileu'r cymhelliant i wneud penderfyniadau na ellir eu cyfiawnhau i wrthod ceisiadau a bod angen ei hailwampio.
- Roedd rhai ACLlau yn pryderu ynghylch colli dyfarniad costau oherwydd ‘ymddygiad afresymol,’ a allai olygu bod yn rhaid iddynt talu'r ffi apelio drwy hawlio costau. Gwnaethant awgrymu na ddylai fod modd adennill ffioedd apeliadau cynllunio drwy'r gyfundrefn gostau oni bai bod y ffi yn cael ei lleihau'n sylweddol neu oni bai mai dim ond rhan o'r ffi a godir. Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â'r safbwynt hwn gan nodi y gallai'r gallu i adennill y ffi apelio gael yr effaith fanteisiol y byddai ACLlau yn ystyried penderfyniadau i wrthod yn ofalus neu'n gohirio cymeradwyaethau pe gellid adennill costau ffioedd o'r fath.

## Cwestiwn 24: Ydych chi'n cytuno mai canran o ffi'r cais cynllunio yw'r ffordd orau o bennu ffioedd ar gyfer apeliadau cynllunio?

Atebodd cyfanswm o 51 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r dull o bennu ffioedd ar gyfer apeliadau yn seiliedig ar ganran o ffi'r cais cynllunio gyda 63% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig, 18% yn anghytuno ag ef ac 20% yn nodi nad oeddent yn gwybod. Roedd safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Ystyrir bod y "dull canran" yn gymesur, yn synhwyrol, yn deg ac yn rhesymol ac y byddai'n cyd-fynd â'r cynnydd blynyddol mewn ffioedd yn unol â chwyddiant. Ystyrir ei fod yn dryloyw ac mae'n dangos yn glir sut y byddai'r ffi apelio yn cael ei chyfrifo.
- Roedd eraill yn anghytuno gan awgrymu bod y dull hwn o weithredu yn rhy syml. Dadleuwyd y dylai ffioedd apelio fod yn gysylltiedig â'r weithdrefn a ddilynir er mwyn adlewyrchu'r gwahaniaethau mewn costau rhwng sylwadau ysgrifenedig, gwrandawiadau ac ymchwiliadau.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr nad yw cymhlethdod apêl bob amser yn cyfateb i'r ffi wreiddiol. Gall fod ffioedd uchel yn gysylltiedig ag apeliadau syml oherwydd maint y cais, sy'n golygu nad yw'r gost yn cyd-fynd â'r ymdrech.
- Mae awgrymiadau amgen yn cynnwys ffioedd sefydlog, graddio yn seiliedig ar y math o apêl neu gymhlethdod yr apêl, neu system haenog.
- At hynny, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid codi ffi ychwanegol ar gyfer apeliadau wyneb yn wyneb er mwyn talu costau fel llogi lleoliad, cyfieithu a systemau PA a delir gan ACLlau.

## Cwestiwn 25: Ydych chi'n cytuno bod 50% o ffi'r cais cynllunio gwreiddiol yn dâl teg a chymesur ar gyfer apeliadau cynllunio?

Atebodd cyfanswm o 52 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol o blaid codi 50% o ffi'r cais gwreiddiol fel y sail dros godi ffioedd am apeliadau. Roedd 52% o'r ymatebwyr yn cytuno, roedd 23% yn anghytuno ac nid oedd 25% yn gwybod. Cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau a chrynhoir y rhai a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Mae ffi sy'n seiliedig ar ganran sefydlog yn cynnig strwythurau costau rhagweladwy i geiswyr, ond gallai tâl o 50% fod yn rhy uchel ar gyfer datblygiadau llai o faint. Efallai na fydd busnesau bach na deiliaid tai unigol yn gallu fforddio'r ffi hon, a fydd yn atal apeliadau dilys rhag cael eu cyflwyno. Efallai na fydd cymhlethdod y broses apelio yn cyd-fynd â'r cais gwreiddiol, sy'n golygu y bydd y ffi o 50% yn anghymesur mewn rhai achosion. Er ei bod yn rhesymol ar gyfer prosiectau mwy o faint â ffioedd uwch, gallai osod baich trwm ar rai llai o faint, gan wneud y system apelio yn llai hygyrch.
- Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno bod ffigur rhwng 25% a 50% yn briodol, gan bwysleisio na ddylai'r ffioedd fod yn uwch na'r hyn sydd ei angen i adennill costau llawn ac mai dim ond cyfran o'r costau y dylent eu talu. Awgrymodd rhai y gallai strwythur ffioedd haenog fod yn fwy priodol er mwyn sicrhau tegwch, yn arbennig ar gyfer datblygwyr llai.
- Awgrymodd rhai na fyddai 50% o'r ffi apelio yn cynhyrchu fawr ddim incwm ar gyfer cyllidebau Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru a'i bod yn

annhebygol iawn y byddai'r ffioedd apelio disgwyliedig a geid (sef 300k y flwyddyn) yn cael effaith amlwg ar adnoddau na pherfformiad. Felly, roedd manteision codi tâl am apeliadau yn 'amheus' wrth eu hystyried yn erbyn y nifer mawr o anfanteision sy'n ymwneud â chyfiawnder naturiol.

- Awgrymodd rhai rhanddeiliaid y dylid cyflwyno cap ar gost uchaf apêl er mwyn atal ffioedd anghymesur.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr bod angen gwneud rhagor o waith yn debyg i astudiaeth ARUP er mwyn nodi'n union y lefelau ffioedd mwyaf priodol yng Nghymru yn hytrach na 'chanran fympwyol'.
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai ffioedd adlewyrchu'r ymdrech sydd ei hangen ar gyfer mathau gwahanol o apeliadau, gan ystyried cymhlethdod a chost y cais gwreiddiol.
- Dylid ystyried y gydberthynas rhwng codi tâl am apeliadau a'r cynnig i ddyblu'r ffioedd am geisiadau ôl-weithredol.

## Cwestiwn 26: Ydych chi'n cytuno â'r eithriadau arfaethedig i ffi Apêl Gynllunio? A oes unrhyw fathau eraill o apeliadau y gellid eu cynnwys fel eithriadau?

Atebodd cyfanswm o 49 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r eithriadau arfaethedig, lle y nododd 55% eu bod yn cytuno â'r cynnig, 18% eu bod yn anghytuno a 27% nad oeddent yn gwybod.  Cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau ac roedd y rhai a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Roedd cefnogaeth gyffredinol o blaid yr eithriad rhag ffi apelio yn erbyn Hysbysiadau Gorfodi (ar wahân i sail a).
- Roedd cefnogaeth gyffredinol (ond nid unfrydol) i'r eithriadau arfaethedig.
- Awgrymodd y rhai a oedd yn anghytuno y dylai eithriadau hefyd fod yn gymwys pan fydd aelodau etholedig yn gwrthod rhoi caniatâd yn groes i argymhellion swyddogion cynllunio ac ar gyfer methu â phenderfynu ar apeliadau.  Dylai hyn hefyd gynnwys eithriadau ar gyfer penderfyniadau a wneir ar safleoedd a ddyrannwyd yn y cynllun datblygu yn groes i argymhelliad swyddogion.
- Awgrymwyd eithriadau hefyd mewn perthynas â phrosiectau cadwraeth natur.
- Ni ddylai fod unrhyw ffioedd am geisiadau 'a alwyd i mewn'.

## Cwestiwn 27: A oes gennych unrhyw sylwadau eraill mewn perthynas â ffioedd Apeliadau Cynllunio?

Dim ond 16 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn ac ymdriniwyd â llawer o'r safbwyntiau a fynegwyd eisoes o dan y cwestiynau blaenorol sy'n ymwneud ag apeliadau. Am y rheswm hwn, nid ydynt wedi'u dyblygu yma. Mae sylwadau eraill sy'n ymwneud ag apeliadau fel a ganlyn:

- Dylid ymdrin ag apeliadau yn nhrefn y dyddiadau cyflwyno ac nid yn unol ag unrhyw system flaenoriaeth arall.
- Os codir ffi, dylid pennu amserlen ar gyfer cofrestru apêl a phenderfynu arni. Dylai hefyd fod mecanwaith ar gyfer ad-dalu ffioedd neu roi estyniad amser fel sy'n ofynnol ar gyfer ACLlau.

- Dylai ffioedd apelio fod wedi'u heithrio rhag y ‘system gostau’.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 22-27

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth ac mae amrywiaeth o safbwyntiau wedi'u cyflwyno. Rydym yn cydnabod, er bod cefnogaeth gyffredinol i'n cynigion yn fras, fod yr ymatebion a gafwyd yn tynnu sylw at yr angen i ystyried y cymhlethdodau a'r goblygiadau yn ofalus cyn cyflwyno ffioedd apelio yng Nghymru. Mae'n hanfodol ei bod yn cydbwyso'r egwyddor allweddol o sicrhau mynediad at gyfiawnder â darparu adnoddau ar gyfer ein gwasanaeth apeliadau. Mae'n amlwg o'r ymatebion bod sawl amcan a chymhlethdod cydgysylltiedig y mae angen eu gwerthuso ymhellach a'u hystyried yn ofalus. Am y rheswm hwn, byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i'r cynnig i gyflwyno ffi apelio, gan gynnwys pa eithriadau y dylid eu cynnwys. Er mwyn sicrhau na pherir oedi i'r cynnydd mewn ffioedd y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn y ddogfen, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'n cynigion ar hyn o bryd. Defnyddir yr ymatebion a gafwyd i ddatblygu cynigion pellach ar gyfer codi tâl am apeliadau a fydd yn rhan o adolygiad o ffioedd yn y dyfodol.

## Cwestiwn 28: Ydych chi'n cytuno y dylai categorïau ffioedd gael eu symleiddio yn y dyfodol?

Roedd cefnogaeth gref ymhlith pob grŵp i'r egwyddor o symleiddio categorïau ffioedd yn y dyfodol. Atebodd 53 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, roedd 74% yn cytuno, roedd 5% yn anghytuno ac nid oedd 21% yn gwybod.

## Cwestiwn 29: Beth yw eich barn ar yr opsiynau a gynigir?

Atebodd 31 o ymatebwyr y cwestiwn hwn gan gyflwyno safbwyntiau ar yr opsiynau a gynigiwyd ar gyfer symleiddio. Mae safbwyntiau a fynegwyd yn aml ar gyfer cwestiynau 28-29 fel a ganlyn.

Ar y cyfan, awgrymodd y rhai a oedd o blaid symleiddio ffioedd y dylai'r newidiadau presennol ‘ymwreiddio’ cyn ystyried diwygiadau yn y dyfodol. Ystyriwyd y gallai system symlach wella hygyrchedd, gan sicrhau bod ceiswyr yn deall ffioedd yn gliriach, a fyddai'n arwain at lai o wallau neu gamddealltwriaeth. Drwy leihau cymhlethdodau, gall ACLlau ddyrannu adnoddau yn fwy effeithiol, gan gyflymu prosesau gwneud penderfyniadau a gwella effeithlonrwydd yn gyffredinol.

Lleisiodd rhai ymatebwyr bryderon fod y strwythur ffioedd presennol yn cael ei ddeall yn dda a'i fod wedi gweithio'n dda ers blynyddoedd lawer ac, am y rheswm hwn, pwysleisiwyd na ddylai symleiddio arwain at orsymleiddio, a allai arwain at anawsterau o ran categoreiddio ffioedd yn gywir.

Ni fynegwyd unrhyw farn gadarn ynghylch sut y dylid symleiddio categorïau. Roedd ychydig dros hanner yr ymatebwyr yn ffafrio Opsiwn 1 am ei fod yn cynnwys amrywiaeth ehangach o fathau o geisiadau. Fodd bynnag, ystyriwyd y gallai Opsiwn 2 fod yn haws i'w ddeall, ond lleisiwyd pryder y gallai opsiwn hwn arwain at orsymleiddio.

Roedd pob grŵp yn cytuno y dylai unrhyw ddiwygiadau i gategorïau ffioedd yn y dyfodol gynnwys sefydlu gweithgor â nifer o randdeiliaid. Y grŵp hwn fyddai'n gyfrifol am adolygu a mireinio categorïau ffioedd yn seiliedig ar ddata cadarn ac ystyried effeithiau posibl ar draws yr holl gategorïau ffioedd.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 28-29

Rydym yn croesawu'r ymatebion a gafwyd a ddefnyddir i lywio adolygiad o ffioedd yn y dyfodol.

## Cwestiwn 30: Beth yw'r 'bwlch' presennol mewn termau ariannol/canrannol rhwng y refeniw a ddaw i law drwy lefelau ffioedd presennol a chostau rhedeg y gwasanaeth rheoli datblygu yn ardal eich ACLl?

Atebodd y rhan fwyaf o ACLlau y cwestiwn hwn ac, o'r rheiny, cyflwynodd 14 ddata costau. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at y ffaith ei bod yn anodd diffinio a mesur y 'bwlch ffioedd' yn gyson ac yn gywir. Nodwyd bod hyn yn heriol iawn oherwydd y diffiniadau amrywiol o wasanaethau rheoli datblygu, newidiadau yn nifer y ceisiadau o flwyddyn i flwyddyn, newidiadau i gostau staff, effaith swyddi gwag a pha 'wasanaethau ac arbenigeddau' eraill sydd wedi'u cynnwys yn y gwaith o brosesu ceisiadau. Roedd yn amlwg o'r ymatebion bod hyn yn amrywio ledled Cymru.

Dengys yr ymatebion fod bylchau sylweddol mewn ACLlau rhwng y refeniw a geir o lefelau presennol ffioedd ceisiadau cynllunio a'r costau sy'n gysylltiedig â rhedeg gwasanaethau rheoli datblygu. Ar y cyfan, mae gwahaniaethau mwy sylweddol yn y bwlch ffioedd rhwng ACLlau trefol mawr ac ACLlau gwledig llai o faint nad ydynt yn cael ceisiadau mwy o faint i gymorthdalu'r gwasanaeth. Er na ellir cymharu'r data yn uniongyrchol am y rhesymau a nodwyd, crynhoir y data a gafwyd yn y tabl isod. Mae'n rhesymol dod i'r casgliad nad yw'r rhan fwyaf o ACLlau yn cael digon o arian o ffioedd cynllunio ar hyn o bryd i gyllido Gwasanaethau Rheoli Datblygu ac, yn y rhan fwyaf o achosion, bod y blwch cyllido yn sylweddol.

| ACLL | Ffioedd ceisiadau cynllunio a geir fel cyfran o'r Gwasanaeth Rheoli Datblygu |
|---|---|
| 1. Trefol | Diffyg o £520,000 |
| 2. Trefol | 58% (2023/24), 50% (rhagolwg 2024/25) |
| 3. Trefol | 62% |
| 4. Trefol | 60% (30% os cynhwysir 'gwasanaethau eraill') |
| 5. Trefol | 50% |
| 6. Trefol | 50% |
| 7. Gwledig | 20-25% |
| 8. Trefol | 25% (2023/24). 41% (rhagolwg 2024/25) |
| 9. Trefol | 40% |
| 10. Gwledig | 38% |
| 11. Trefol | 30% |
| 12. Gwledig | 25% |
| 13. Gwledig | 23% |

| | |
|---|---|
| 14. Gwledig | 17% |

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 30

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a gafwyd ac rydym yn ddiolchgar i'r rhai a gyflwynodd ddata ariannol a chostau. Mae'r sefyllfa o ran adnoddau mewn ACLlau yn ddifrifol. Nod ein cynigion ar gyfer adennill costau llawn a diweddariadau blynyddol rheolaidd i ffioedd yw rhoi sail ariannol fwy cynaliadwy i ACLlau yn y dyfodol a fydd yn helpu i ddechrau'r broses o adfer o'r llinell sylfaen bresennol. Bydd symud ceisiadau deiliaid tai i adennill costau llawn o 'Ddiwrnod 1' yn cael effaith gadarnhaol ar adnoddau ACLlau, gan gynnwys ardaloedd gwledig, a bydd yn mynd i'r afael â'r bwlch ffioedd ynghynt. Bydd yr ymatebion a gafwyd yn llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Rheoliadau Ffioedd pan gânt eu cyhoeddi.

## Cwestiwn 31: Pa effaith, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol, a gaiff ein cynigion ar yr incwm a ddaw i law mewn termau ariannol a chanrannol, a'r berthynas â chostau rhedeg gwasanaeth rheoli datblygu nawr ac yn y tair i bum mlynedd nesaf nes y caiff costau eu hadennill yn llawn?

Atebodd y rhan fwyaf o ACLlau y cwestiwn hwn gan gyflwyno sylwadau. Ymateb cyffredin oedd ei bod yn anodd costio a mesur effeithiau cynnydd mewn ffioedd yn llawn ac y byddai'n cymryd amser i wella o'r llinell sylfaen bresennol. Fodd bynnag, ymatebodd ACLlau yn gadarnhaol, gan nodi y byddai ffioedd uwch yn gwella gwasanaethau rheoli datblygu drwy sicrhau cynaliadwyedd ariannol, a fyddai'n gwella cyfraddau cadw a recriwtio staff ac, yn y pen draw, berfformiad. O'r ymatebwyr hynny a gyflwynodd ddata costau, nodwyd incwm ychwanegol sylweddol. Er enghraifft, rhagamcanodd un ACLl trefol gynnydd amcangyfrifedig o £900k mewn tair blynedd, gan symud yn agosach at adennill costau llawn (tua 80%). Mae ACLl arall yn rhagweld £200k ychwanegol y flwyddyn nawr, a fydd yn cynyddu i £320k mewn 3-4 blynedd. Byddai hyn yn golygu bod 54% o'r gwasanaeth rheoli datblygu yn cael ei gyllido o ffioedd. Cyflwynodd ACLlau eraill ddata ar sut y bydd yr incwm yn effeithio ar y gallu i gynyddu nifer y swyddi. Roedd yn amlwg o'r ymatebion na fydd cynyddu ffioedd yn cau'r blwch ffioedd yn llwyr ym mhob ACLl. Awgrymodd eraill bod clustnodi yn hanfodol er mwyn sicrhau bod arian yn cael ei ailfuddsoddi.

Mynegwyd yn aml y dylai ceisiadau deiliaid tai gael eu pennu ar lefel adennill costau llawn o Ddiwrnod 1 gan y byddai hyn yn cael yr effaith fwyaf cadarnhaol ar gyfer pob ACLl, yn arbennig y rhai sy'n llai o faint ac yn fwy gwledig. Awgrymodd eraill y gellid gwneud y llwybr yn fyrrach ar gyfer yr holl gategorïau ffioedd a fyddai'n cael effeithiau cadarnhaol ar gyllidebau ACLlau yn y byrdymor.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 31

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a gafwyd ac yn ddiolchgar i'r rhai a gyflwynodd ddata ariannol a chostau. Nod ein cynigion ar gyfer adennill costau llawn a diweddariadau blynyddol rheolaidd i ffioedd yw rhoi sail ariannol fwy cynaliadwy i ACLlau yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu'r broses o adfer o'r llinell sylfaen bresennol. Bydd symud ceisiadau deiliaid tai i adennill costau llawn o 'Ddiwrnod 1' yn cael

effaith gadarnhaol ar adnoddau ACLlau, gan gynnwys ardaloedd gwledig, a bydd yn mynd i'r afael â'r bwlch ffioedd ynghynt. Bydd yr ymatebion a gafwyd yn llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Rheoliadau Ffioedd pan gânt eu cyhoeddi.

## Cwestiwn 32: O ran ceisiadau deiliaid tai, beth yw'r costau presennol sy'n gysylltiedig â chais "nodweddiadol" gan ddeiliad tŷ o gymharu ag incwm o ffioedd (gan gynnwys amser swyddogion, amser gweinyddol (cofrestru, dilysu, cyfathrebu), hysbysiadau statudol ac ati)?

O'r 19 o ACLlau a atebodd y cwestiwn hwn, roedd y mwyafrif yn fodlon bod y ffioedd deiliaid tai arfaethedig a nodwyd yn Adroddiad ARUP yn adlewyrchiad cadarn o'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesu ceisiadau deiliaid tai. Roedd pob un a ymatebodd o'r farn bod lefel y ffi bresennol, sef £230, yn rhy isel ac ymhell o fod ar lefel adennill costau llawn.

### Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 32

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a gafwyd a bydd yr ymatebion yn llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Rheoliadau Ffioedd pan gânt eu cyhoeddi.

## Cwestiwn 33: Ar gyfer ymgeiswyr sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio, ydych chi'n credu y bydd ein cynigion yn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu?

Atebodd 45 o ymatebwyr y cwestiwn hwn gan gyflwyno amrywiol safbwyntiau. Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith pob grŵp y caiff y cynigion effaith gadarnhaol ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu. Roedd 53% yn cytuno, roedd 9% yn anghytuno ac nid oedd 38% yn gwybod.

## Cwestiwn 34: Ar gyfer ymgeiswyr sy'n defnyddio gwasanaethau cynllunio, beth yw eich barn gyffredinol ar effeithiau ein cynigion, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol?

Atebodd 30 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Ymdriniwyd eisoes â llawer o'r sylwadau a gyflwynwyd o dan y cynigion penodol y maent yn ymwneud â nhw ac nid ydynt wedi'u dyblygu yma. Gellir crynhoi'r safbwyntiau a fynegwyd amlaf fel rhan o gwestiynau 33 a 34 fel a ganlyn:

- Ar y cyfan, roedd cefnogaeth ymhlith pob grŵp o blaid symud i adennill costau llawn , a fydd yn rhoi sail fwy cadarn a chynaliadwy i ACLlau, gan eu galluogi i recriwtio a chadw staff. Dylai hyn olygu bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn gyflymach, a fydd o fudd i holl ddefnyddwyr y system a chymunedau.
- Ar y cyfan, mae ceiswyr yn croesawu'r cynigion ar gyfer cynnydd mewn ffioedd, ar yr amod y sicrheir gwelliannau gwirioneddol. Ar y cyfan, mae ceiswyr yn disgwyl, yn gyfnewid am gynnydd mewn ffioedd, y bydd gwelliannau amlwg mewn perfformiad dros amser a bod yn rhaid i ffioedd

cynllunio gael eu clustnodi a'u hailfuddsoddi yn ôl mewn gwasanaethau cynllunio. Cydnabuwyd y bydd yn cymryd amser i wasanaethau adfer o'u llinell sylfaen bresennol.
- Mae ffioedd ceisiadau cynllunio yn gyfran fach o gyfanswm y costau datblygu am estyniadau i dai a datblygiadau mawr. Er gwaethaf y cynnydd mewn ffioedd, maent yn dal i fod yn is na ffioedd ar gyfer proffesiynau eraill fel rheolaeth adeiladu, syrfewyr ac asiantiaid eiddo. Ystyriwyd na fydd y cynnydd yn cael fawr ddim effaith ar geiswyr.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 33 a 34

Rydym yn gwerthfawrogi'r adborth a'r ymatebion a bydd yr ymatebion a gafwyd yn llywio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r Rheoliadau Ffioedd pan gânt eu cyhoeddi.

## RHAN 2: Perfformiad, Cydnerthedd a Gallu Awdurdodau Cynllunio Lleol

## Cwestiwn 35: Ydych chi'n cytuno y dylai'r Fframwaith Perfformiad Cynllunio gael ei ailgyflwyno?

Atebodd cyfanswm o 52 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd cefnogaeth gref o blaid ailgyflwyno'r Fframwaith Perfformiad ymhlith pob grŵp lle roedd 83% yn cytuno, roedd 2% yn anghytuno ac nid oedd 15% yn gwybod. Cyflwynwyd amrywiaeth o safbwyntiau ac roedd y rhai a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Bydd yn cymryd amser i unrhyw fanteision sy'n deillio o incwm ychwanegol o ffioedd ymddangos mewn perfformiad o'r llinell sylfaen bresennol ac mae'n bwysig bod disgwyliadau yn cael eu rheoli.
- Rydym yn gwerthfawrogi'r data a gasglwyd fel rhan o'r Fframwaith Perfformiad ac mae adolygu'r data a myfyrio arno yn hanfodol i wasanaethau cynllunio er mwyn eu helpu i wella ac ystyried perfformiad/arferion gorau ymhlith ACLlau.
- Nid yw perfformiad dan reolaeth lawn yr ACLl am y gall oedi gael ei achosi gan Ymgyngoreion Statudol neu'r broses gwneud cais ei hun megis asesu hyfywedd. Felly, dylid monitro hyn.
- Cafodd problemau eraill mewn ACLlau megis prinder sgiliau, morâl isel a phrinder staff sy'n effeithio ar berfformiad eu codi hefyd fel materion y dylid eu monitro.
- Beirniadodd rhai ymatebwyr y penderfyniad i atal y Fframwaith Perfformiad dros dro yn 2020 a nodi bod y diffyg data cyfredol yn wendid sylweddol. Lleisiwyd pryder hefyd ynghylch y ffaith na fydd data ar gael tan fis Hydref 2026 gyda rhai'n awgrymu y dylid eu cyflwyno ynghynt ym mis Hydref 2025 er mwyn sicrhau bod data llinell sylfaen o 2024/25 ar gael i fonitro cynnydd mewn ffioedd.
- Beirniadwyd y ffaith nad oes unrhyw weithdrefnau ffurfiol ar waith ar hyn o bryd os nodir nad yw'r ACLl yn cyflawni targedau. Dylai perfformiad gwael ysgogi Cynllun Gwella.
- Codwyd pryderon y gallai ailgyflwyno Fframwaith Perfformiad olygu bod penderfyniadau yn cael eu gwneud yn gyflym a allai arwain at benderfyniadau

gwael ac at wrthod ceisiadau yn ddiangen. Nid yw cyflymder yn golygu ansawdd.

## Cwestiwn 36: Ydych chi'n credu y dylai unrhyw gynnydd i ffioedd ceisiadau cynllunio yn y dyfodol fod yn gysylltiedig â pherfformiad yn benodol?

Atebodd 53 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd 57% yn anghytuno, roedd 36% yn cytuno ac roedd 8% yn ansicr ynghylch cysylltu cynnydd mewn ffioedd gwneud cais â pherfformiad. Roedd ACLlau yn anghytuno, ar y cyfan, tra roedd y gymuned fusnes o blaid eu cysylltu. Cyflwynwyd amrywiol safbwyntiau ac fe'u crynhoir fel a ganlyn:

Ni fydd ffioedd ar eu pen eu hunain yn gwella perfformiad

- Bydd cynnydd mewn ffioedd yn gwella perfformiad yn y pen draw, er na fyddant yn gwneud hynny ar unwaith oherwydd yr amser sydd ei angen er mwyn i ACLlau adfer o'r llinell sylfaen bresennol ac ymateb i'r cymhlethdodau cynllunio ehangach megis diweddariadau i bolisi a newidiadau deddfwriaethol. Bydd recriwtio, hyfforddi staff, rhoi gwelliannau i wasanaethau ar waith a chynyddu adnoddau hefyd yn cymryd amser oherwydd gweithdrefnau mewnol.
- Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno y dylai fod canlyniadau i berfformiad gwael ac roeddent o'r farn na ddylai hyn fod ar ffurf cosb ariannol. Dylid canolbwyntio ar gamau gweithredu/ymyriadau cadarnhaol mewn perthynas â darparu adnoddau, gallu, morâl a hyfforddiant i wella perfformiad.
- Lleisiwyd pryderon y gallai lleihau ffioedd o ganlyniad i berfformiad anfoddhaol arwain at danberfformiad parhaus. At hynny, gallai cysylltu ffioedd â pherfformiad waethygu heriau presennol a wynebir gan ACLlau o ran recriwtio, cyflogau a chadw staff, am iddi gael ei nodi bod cyflogau yn y sector preifat yn fwy deniadol.
- Mae angen gwneud gwaith dadansoddi er mwyn cadarnhau a oedd cydberthyniad rhwng perfformiad ac incwm o ffioedd.

Cosbau a chymhellion

- Dylai ACLlau sy'n tanberfformio gael eu cosbi'n ariannol drwy gyfyngiadau ar ffioedd. Dylid cymell ACLlau i benderfynu ar geisiadau o fewn terfynau amser statudol, am fod gallu'r datblygwr i gyflawni yn gysylltiedig â pha mor gyflym y gall ACLlau benderfynu ar geisiadau.
- Dylai Llywodraeth Cymru gynnig gwasanaeth canolog lle y gall ceiswyr gyflwyno ceisiadau yn hytrach nag i'r ACLl sy'n methu.
- Gellid cyfiawnhau ffioedd ychwanegol ar gyfer gwasanaeth effeithlon a chyflymach. Pe na byddai unrhyw welliannau o ganlyniad i gynnydd mewn ffioedd, ni fyddai cynnydd pellach yn cael ei gefnogi gan geiswyr.
- Mae eisoes gan geiswyr yr opsiwn i gael ad-daliad os bydd y cais wedi mynd heibio i'r dyddiad penderfynu statudol heb estyniad amser, sy'n gweithredu fel cosb am berfformiad gwael.
- Dylai perfformiad gwael ysgogi Cynllun Gwella.

## Cwestiwn 37: A oes gennych unrhyw sylwadau ar gynnwys arfaethedig Adroddiadau Perfformiad Blynyddol?

Atebodd 40 o ymatebwyr y cwestiwn hwn gan gyflwyno amrywiol safbwyntiau a grynhoir fel a ganlyn:

- Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn fodlon ar y dangosyddion presennol ac y gallai gymryd cryn dipyn o amser i gytuno ar rai newydd. Ystyriwyd bod fformat presennol Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn dderbyniol, ar y cyfan, ei fod yn cael ei ddeall yn eang a'i fod yn cynnwys gwybodaeth berthnasol. Dylai unrhyw ymdrechion i newid neu ychwanegu dangosyddion gael eu hystyried yn ofalus a'u cytuno gan bartïon perthnasol.
- Ni ddylai newidiadau i Adroddiadau Perfformiad Blynyddol arwain at ddyblygu â phrosesau eraill.
- Roedd rhywfaint o gefnogaeth o blaid asesu perfformiad ar wahân ar gyfer ceisiadau mawr a cheisiadau llai nad ydynt ar gyfer datblygiadau mawr. Ystyriwyd y byddai asesu perfformiad ar draws amrywiaeth ehangach o fathau o geisiadau yn adlewyrchu'r cymhlethdodau a'r materion gwahanol. Cyflwynwyd sylwadau hefyd ar gyfnodau penderfynu statudol nad ydynt yn adlewyrchu cymhlethdod rhai ceisiadau ar hyn o bryd. Efallai na fydd wyth wythnos yn ddigon ar gyfer ceisiadau cymhleth.
- Dylid cyflwyno dangosyddion sy'n ymwneud â ‘boddhad â'r gwasanaeth’.
- Codwyd pryderon y gallai canolbwyntio ar gyflymder prosesau gwneud penderfyniadau, yn hytrach na chanlyniadau, arwain at benderfyniadau i wrthod ceisiadau sy'n cael eu llywio gan dargedau.
- Gallai Dangosydd 08 gael ei sgiwio gan nifer bach o geisiadau sy'n cymryd mwy o amser.
- Dylai Dangosydd 06 ganolbwyntio ar daflwybr tai'r CDLl a thai fforddiadwy yn lle cyflenwad pum mlynedd o dir.
- Dylid rhannu Dangosydd 07 yn isadrannau ar gyfer ceisiadau mwy o faint a chytundebau Adran 106.
- Mae angen ailystyried Dangosydd 16 am fod swyddogion yn gweithio gartref.
- Cafwyd amrywiaeth o awgrymiadau eraill.

Mae awgrymiadau ychwanegol wedi'u crynhoi o dan y cwestiynau perthnasol sy'n ymwneud â'r cynnwys.

## Cwestiwn 38: Yn eich barn chi, beth yw'r dangosyddion allweddol y dylid eu defnyddio i fesur perfformiad awdurdodau?

Atebodd 46 o ymatebwyr y cwestiwn hwn gan gyflwyno amrywiaeth o safbwyntiau a grynhoir fel a ganlyn:

- Roedd llawer o ymatebwyr yn fodlon ar y dangosyddion presennol, ar y cyfan.
- Codwyd pryderon bod y dangosyddion ond yn canolbwyntio ar gyflymder, nid ar ansawdd gwaith datblygu, ansawdd y gwasanaeth a ddarperir na gwerth ychwanegol.
- Gwnaed tua 40 o awgrymiadau ar gyfer dangosyddion sy'n gysylltiedig â CDLlau, ceisiadau ac effeithlonrwydd gwasanaethau, apeliadau, gorfodi a

materion gweinyddol/materion sy'n ymwneud â dilysu. Mae llawer o'r awgrymiadau wedi'u cynnwys yn fformat presennol yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

## Cwestiwn 39: Beth yw eich barn ar y bandiau perfformiad presennol – Gwella (coch), Gweddol (melyn) a Da (gwyrdd)? Ydych chi'n credu y dylid eu newid?

Atebodd 43 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd 56% o'r ymatebwyr yn credu bod y bandiau presennol yn addas ac na ddylid eu newid, roedd 19% o'r farn y dylid gwneud newidiadau ac nid oedd 26% yn siŵr. Mae'r safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Mae'r bandiau perfformiad cynnwys presennol yn syml, yn effeithiol ac yn hawdd i'w deall.
- Argymhellir y dylid adolygu bandiau bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol.
- Dylid defnyddio bandiau mewn ffordd ategol ac er mwyn nodi ble mae angen adnoddau, nid dim ond i roi pwysau ar staff neu eu cosbi.
- Awgrymwyd dangosyddion tueddiadau er mwyn dangos gwelliant neu ddirywiad dros amser.
- Rhaid sicrhau bod mecanwaith i esbonio pam mae ACLl yn yr ‘ardal goch’.
- Dylai fod cynllun gwobrwyau ar gyfer CLlau sy'n perfformio'n dda yn y ‘band gwyrdd’.
- Dylid cynnwys band ychwanegol hefyd, sef band ‘rhagorol’.
- Gofynnwyd a ellid ystyried bod 60% yn cael eu penderfynu o fewn cyfnodau amser yn “dda”. Yn yr un modd, cyfeiriwyd at y ffaith bod y gair “teg” yn agored i'w ddehongli.
- Dylai Pennaeth yr Adran Gynllunio ar gyfer pob ACLl gael cyfweliad adolygu blynyddol er mwyn ystyried perfformiad.

## Cwestiwn 40: A oes unrhyw fetrigau meintiol nad ydynt wedi'u cynnwys a ddylai gael eu cynnwys?

Atebodd 42 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Cymysg fu'r farn ynghylch a ddylid cynnwys metrigau meintiol newydd. Roedd 29% yn cytuno, roedd 29% yn anghytuno ac nid oedd 42% yn gwybod. Mae safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Roedd sawl ymatebydd o'r farn nad oedd angen rhagor o fetrigau ac roeddent yn fodlon ar y mesurau presennol.
- Dylid ystyried y metrigau mewn adolygiad pellach.
- Gall data meintiol fod yn gamarweiniol, lle mae maint samplau yn fach a lle y gall allanolion ystumio perfformiad yn arbennig pan gânt eu cyflwyno allan o'u cyd-destun.
- Gwnaed tua 35 o awgrymiadau ar gyfer metrigau meintiol sy'n ymwneud â cheisiadau, effeithlonrwydd gwasanaethau, apeliadau a gorfodi. Mae llawer o'r awgrymiadau wedi'u cynnwys yn fformat presennol yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol.

## Cwestiwn 41: A oes unrhyw fetrigau ansoddol nad ydynt wedi'u cynnwys a ddylai gael eu cynnwys?

Atebodd 42 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Cymysg fu'r farn ynghylch a ddylid cynnwys metrigau meintiol newydd. Roedd 50% yn cytuno, roedd 24% yn anghytuno ac nid oedd 26% yn gwybod. Mae safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Nid oedd angen rhagor o fetrigau ac roeddent yn fodlon ar y mesurau presennol.
- Roedd rhai o'r farn y dylid ystyried y metrigau mewn adolygiad pellach.
- Awgrymwyd, er mwyn deall 'boddhad' neu 'brofiad cwsmeriaid' yn union, y gellid defnyddio arolwg, Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus oherwydd gallai'r canlyniadau gael eu sgiwio gan geisydd a gafodd y canlyniad yr oedd ei eisiau arno yn hytrach na gwerthuso'r gwasanaeth.
- Awgrymwyd sawl metrig ansoddol sy'n ymwneud ag ansawdd cyngor, dulliau ymgynghori, dylunio a chreu lleoedd, datblygu cynaliadwy, adborth a chyfathrebu (canmoliaeth a chwynion), perygl llifogydd a boddhad Cynghorau Cymuned.

## Cwestiwn 42: Ydych chi'n credu mai'r targedau a'r dangosyddion presennol yw'r rhai cywir ar gyfer perfformiad y gwasanaeth rheoli datblygu?

Atebodd 43 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Cymysg fu'r farn ynghylch a yw'r targedau a'r dangosyddion presennol yn ddigonol ar gyfer y gwasanaeth rheoli datblygu. Roedd 37% yn cytuno, roedd 24% yn anghytuno ac nid oedd 37% yn gwybod. Mae safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Roedd rhai ymatebwyr yn fodlon ar y targedau a'r dangosyddion presennol sy'n sefydledig ar ôl cael eu datblygu gyda Chymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru a Llywodraeth Cymru.
- Roedd rhai o'r farn bod y metrigau yn rhesymol i'w defnyddio am y tro, neu'n ddefnyddiol i grynhoi data nes i adolygiad gael ei gynnal. Ystyriwyd eu bod yn adlewyrchu perfformiad yn dda, ar y cyfan, er bod gwendidau yn y dull gweithredu presennol.
- Codwyd pryderon bod y dangosyddion ond yn canolbwyntio ar gyflymder, nid ar ansawdd gwaith datblygu, ansawdd y gwasanaeth a ddarperir na gwerth ychwanegol. Fodd bynnag, nodwyd ei bod wedi bod yn anodd cytuno ar fesur yn y gorffennol. Roedd gwaith ymchwil gan yr RTPI yn awgrymu y gallai ACLlau fesur dyheadau o ran creu lleoedd a gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd.
- Codwyd amheuon ynghylch gwerth dangosyddion seiliedig ar amserlenni am fod y broses benderfynu wedi mynd yn fwy cymhleth ers i'r amserlenni gael eu cyflwyno ac y gall negodiadau ac ymatebion gan ymgyngoreion beri oedi i benderfyniadau.
- Awgrymwyd metrigau ychwanegol megis rhai sy'n ymwneud â pherygl llifogydd, apeliadau a wrthodwyd a darparu tai fforddiadwy.

## Cwestiwn 43: Ydych chi'n credu mai'r targedau a'r dangosyddion presennol yw'r rhai cywir ar gyfer perfformiad y gwasanaeth cynllun datblygu?

Atebodd 42 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Cymysg fu'r farn ynghylch a yw'r targedau a'r dangosyddion presennol yn ddigonol ar gyfer y gwasanaeth cynllun datblygu. Roedd 37% yn cytuno, roedd 29% yn anghytuno ac nid oedd 36% yn gwybod. Mae safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y targedau a'r dangosyddion presennol yn dderbyniol, yn ddealladwy, yn berthnasol ac yn deg, ar y cyfan.
- Roedd nifer llai o'r farn bod angen cynnal gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori pellach er mwyn cytuno ar dargedau a dangosyddion newydd ar gyfer CDLlau. Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar reoli datblygu ac mae angen edrych yn fanylach ar y rhan creu cynlluniau o'r gwasanaeth cynllunio.
- Awgrymodd rhai ymatebwyr ddangosyddion ychwanegol megis data ar gytundebau A.106 mewn perthynas â gofynion cynlluniau a chost llunio cynllun datblygu.
- Mae CDLlau yn hwyr iawn yn cael eu cyflwyno ledled Cymru a dylid diweddaru Dangosydd 01 er mwyn nodi a yw adolygiad o'r CDLl yn hwyr yn cael ei gynnal a'r tebygolrwydd y bydd CDLl newydd ar waith cyn i'r cynllun presennol ddod i ben.
- Nododd sawl ymgeisydd fod angen diwygio Dangosydd 06 yn sgil canslo TAN1. Yn ei le dylid cyflwyno trefniadau i fonitro nifer y tai sy'n cael eu darparu yn erbyn taflwybr y CDLl.
- Dylid cynnwys dangosyddion ychwanegol mewn perthynas â pharatoi CDSau a CDLlau Cryno.

## Cwestiwn 44: Ydych chi'n cytuno y dylai perfformiad awdurdodau cynllunio lleol o ran cyflymder gwneud penderfyniadau gael ei asesu yn ôl canran y ceisiadau y penderfynir arnynt o fewn y cyfnod penderfynu statudol, h.y. heb gynnwys estyniadau amser a Chytundebau Perfformiad Cynllunio?

Atebodd 52 o ymatebwyr y cwestiwn hwn a chyflwynwyd amrywiaeth a chymysgedd o safbwyntiau. Roedd 42% yn cytuno, roedd 48% yn anghytuno ac nid oedd 10% yn gwybod. Mae safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Gall gwerthuso cyflymder penderfyniadau yn erbyn amserlenni statudol adlewyrchu'n gywir y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu a gwella effeithlonrwydd.
- Mae angen edrych ar amserlenni statudol er mwyn adlewyrchu cymhlethdod amseroedd ceisiadau.
- Ystyrir bod Cytundebau Perfformiad Cynllunio ac Estyniadau Amser yn fuddiol i'r ACLl a'r ceisydd ac na ddylid cosbi'r ACLl am ymestyn y cyfnod er mwyn cyflawni canlyniadau gwell, nid yw cyflymder yn gwarantu ansawdd.

- Tynnwyd sylw at rôl Cytundebau Perfformiad Cynllunio fel adnodd pwysig ar gyfer cynlluniau mwy cymhleth.
- Nododd ymatebwyr hefyd y gall fod angen cytundebau Estyniad Amser am resymau y tu hwnt i reolaeth yr ACLl. (e.e. am na chyflwynwyd digon o wybodaeth gyda'r cais cynllunio, er mwyn ymdrin â materion newydd sy'n codi, diffyg ymgysylltu cyn gwneud cais, amseriadau cyfarfodydd pwyllgorau cynllunio, ac oedi cyn i ymgyngoreion statudol gyflwyno ymatebion)
- Codwyd pryder y gallai dileu'r mecanweithiau hyn o ddata perfformiad arwain at benderfyniadau cyflym i wrthod ceisiadau cyn terfyn amser statudol, lle y gellid bod wedi dod o hyd i atebion wedi'i negodi, sy'n cael yr effaith andwyol bod mwy o geisiadau yn cael eu hailgyflwyno a bod mwy o apeliadau yn cael eu gwneud.
- Ar y llaw arall, roedd eraill o'r farn y gallai perfformiad gwael gael ei guddio gan ddefnyddio Estyniadau Amser ac y dylid dileu'r ddarpariaeth hon.

## Cwestiwn 45: Ydych chi'n credu bod cyflwyno mesurau cydnerthedd mewn Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn ychwanegiad defnyddiol at adroddiadau perfformiad?

Roedd cefnogaeth gref ymhlith pob grŵp o blaid cynnwys mesurau cydnerthedd mewn Adroddiadau Perfformiad Blynyddol. Atebodd 47 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, roedd 74% yn cytuno, roedd 2% yn anghytuno ac nid oedd 23% yn gwybod. Mae safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

- Dylai cofnodi incwm o ffioedd a mesurau cydnerthedd fod yn un o ofynion cynnydd mewn ffioedd a chael ei gynnwys yn y fframwaith perfformiad.
- Nododd llawer o ymatebwyr y byddai cyflwyno mesurau cydnerthedd yn rhoi mwy o gyd-destun ac yn helpu partïon eraill i ddeall gwerth am arian, staffio, heriau o ran adnoddau ac effaith cynnydd mewn ffioedd ar y ffordd y mae gwasanaethau yn cael eu darparu. Fodd bynnag, nododd dros hanner yr ymatebwyr na ddylid cysylltu hyn â pherfformiad ac y dylid ei ddefnyddio'n fwy ar gyfer gwybodaeth ac at ddibenion cyd-destunol.
- Awgrymodd ymatebwyr a oedd o blaid y cynnig bod angen i unrhyw fesurau gael eu datblygu ymhellach a'u hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eglurder a chysondeb rhwng ACLlau oherwydd natur ddynameg cynllunio. Gellid gwneud hyn drwy weithgor neu drafodaethau ychwanegol i fynd i'r afael â materion megis gallu, argaeledd sgiliau arbenigol, systemau cymorth a mewnbynnau ymgyngoreion allanol. Nododd rhai ymatebwyr y dylai'r data fod yn synhwyrol, yn hawdd i'w deall ac yn hawdd i'r ACLl eu casglu heb gymhlethu'r broses.
- At hynny, gellid gwerthuso bylchau mewn recriwtio a chydnerthedd arbenigwyr megis y rhai ym meysydd priffyrdd a draenio sy'n cefnogi'r gwasanaeth cynllunio.
- Nododd rhai ymatebwyr y gallai nodi materion ehangach sy'n effeithio ar berfformiad ACLlau dynnu sylw at feysydd i'w gwella, gan helpu gyda phenderfyniadau cyllidebol. Byddai deall materion sy'n ymwneud â chydnerthedd helpu Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth ac adnoddau angenrheidiol.

- Nododd rhai ymatebwyr y byddai'n anodd casglu a chymharu'r wybodaeth hon ac y byddai pob ACLl yn wahanol.

## Cwestiwn 46: Ydych chi'n cytuno â'r mesurau bras a gynigir? Os nad ydych, beth yw'r rheswm pam a pha fesurau eraill y dylid eu cynnwys?

Mae cefnogaeth gyffredinol i'r mesurau arfaethedig lle mae 63% yn cytuno, mae 7% yn anghytuno ac nid yw 30% yn gwybod. Ymdriniwyd â'r safbwyntiau a fynegir yma eisoes o dan gwestiynau blaenorol.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 35-46.

Rydym yn gwerthfawrogi pob ymateb a gyflwynwyd mewn perthynas ag ailgyflwyno'r Fframwaith Perfformiad a'r hyn y mae'n ei gynnwys. Rydym yn cydnabod y gefnogaeth gref i'r Fframwaith Perfformiad sydd wedi'i gyflwyno'n ffurfiol o 1 Ebrill 2025. Rydym yn cydnabod y bydd angen amser ac adnoddau ar ACLlau i addasu i'r Fframwaith pan gaiff ei ailgyflwyno ac i unrhyw fesurau newydd neu ddiwygiedig. Er mwyn lliniaru hyn, rydym wedi cynnig dull gweithredu dau gam. Mae'r cam cyntaf ar gyfer yr adroddiadau hynny sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, a gyflwynir i Weinidogion Cymru ym mis Hydref 2026, cânt eu paratoi o dan y fformat presennol. Bydd yr adborth o'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu i ddatblygu dangosyddion, targedau a chanllawiau newydd gyda rhanddeiliaid. Bydd y canllawiau diwygiedig yn gymwys i Adroddiadau Perfformiad Blynyddol a gyhoeddir yn 2027, a fydd yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Ebrill 2026 a 31 Mawrth 2027.

## Cwestiwn 47: Yn eich barn chi, beth yw'r bylchau sgiliau ac arbenigedd mwyaf o fewn awdurdodau cynllunio lleol a pha effaith y mae hyn yn ei chael ar y ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu ar hyn o bryd?

Atebodd 54 o ymatebwyr y cwestiwn gan fynegi amrywiaeth eang o safbwyntiau.

- Ceir bylchau arbenigedd mewn sawl maes arbenigol sy'n peri oedi i geisiadau a'r gwaith o gyflawni datblygiadau. Nodwyd bylchau mewn sgiliau ac arbenigedd mewn sawl maes arbenigol megis ynni adnewyddadwy, ecoleg, cymorth cyfreithiol ar gyfer Adran 106, priswyr ar gyfer asesiadau o hyfywedd, dylunio trefol, creu lleoedd, cadwraeth/treftadaeth, newid hinsawdd/cynaliadwyedd, ffosffadau, tirwedd, coed, iechyd yr amgylchedd, gorfodi a phriffyrdd. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith ei bod yn anodd recriwtio swyddogion cynllunio sy'n siarad Cymraeg.
- Nododd ymatebwyr fod cost ychwanegol yn gysylltiedig â phenodi ymgynghorwyr ar gyfer cyngor arbenigol ac y gallai hyn effeithio ar ganfyddiad y cyhoedd o gysondeb a diduedddrwydd y cyngor.
- Nododd rhai ymatebwyr fod sgiliau a phrofiad yn cael eu colli i'r sector preifat, tra tynnodd eraill sylw at y ffaith bod swyddogion yn ymddeol a bod llai o gynllunwyr yn ymuno â'r proffesiwn.

- Nododd ymatebwyr heriau sy'n gysylltiedig â recriwtio swyddogion profiadol â sgiliau arwain. Mae'r prinder hwn yn lleihau nifer y swyddogion sydd ar gael ar gyfer ceisiadau mawr, gan roi pwysau ar y gwasanaeth a pheri oedi a lleihau ansawdd penderfyniadau.
- Lleisiodd ymatebwyr bryderon ynghylch myfyrwyr yn ymuno â'r proffesiwn heb sgiliau cyflwyno, cyfathrebu, ysgrifennu adroddiadau, rheoli prosiect na negodi, sy'n rhoi baich ar yr ACLl o ran darparu hyfforddiant. At hynny, nid yw ysgolion cynllunio yn addysgu pynciau rheoli datblygu a gorfodi yn ddigon da.
- Nododd rhai ymatebwyr nad oes gan aelodau iau o staff brofiad oherwydd trefniadau gweithio o bell.

## Cwestiwn 48: Yn eich barn chi, beth yw'r prif rwystrau sy'n wynebu ACLlau o ran recriwtio a chadw staff?

Atebodd 54 o ymatebwyr y cwestiwn hwn gan fynegi amrywiaeth eang o safbwyntiau a grynhoir fel a ganlyn:

- Nododd ymatebwyr nad yw cyflogau yn y sector cyhoeddus yn gystadleuol a bod cyfyngiadau cyllidebol a strwythurol mewn ACLlau yn atal swyddi graddau gyrfa rhag cael eu creu.
- Nododd rhai ymatebwyr fod y manteision i ACLlau wedi cael eu lleihau tra bod y sector preifat yn cynnig cyflogau gwell, bonysau, car cwmni ac yswiriant iechyd. Mae'r sector preifat bellach yn cynnig trefniadau gweithio gartref a gweithio hyblyg, sef un o fanteision gweithio i ACLl yn y gorffennol. Nododd sawl ymatebydd fod yn well gan gynllunwyr ifanc y sector preifat am y rhesymau hyn. At hynny, nid yw ffioedd yr RTPI bob amser yn cael eu talu mewn ACLlau.
- Lleisiodd rhai ymatebwyr bryderon hefyd fod cronfa fach o gynllunwyr y gellir recriwtio ohoni sy'n lleihau. Yn aml, mae ACLlau yn cystadlu am staff â'i gilydd ac â rhannau eraill o'r sector cyhoeddus megis Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru a Llywodraeth Cymru a chyrff eraill.
- Nododd ymatebwyr fod llwythi gwaith mawr yn cael effaith andwyol ar y proffesiwn, gan roi pwysau ar staff ac achosi iddynt ymlâdd yn llwyr. Priodolir hyn i brinder staff a diffyg swyddogion ac adrannau arbenigol, sy'n arwain at ganlyniadau uniongyrchol ar ffurf toriadau cyllidebol a heriau o ran recriwtio a hyfforddi. At hynny, mae'r angen i ymdrin â chynghorwyr a natur wleidyddol y rôl yn peri problem, am fod cysoni prosesau gwneud penderfyniadau â chyfarwyddiadau gwleidyddol yn cyfyngu ar allu staff i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol. Gallai'r sefyllfa hon effeithio ar benderfyniadau staff i chwilio am swyddi rywle arall. At hynny, nododd rhai ymatebwyr fod biwrocratiaeth a phrosesau yn y sector cyhoeddus yn lleihau creadigrwydd ac yn cael effaith negyddol ar forâl staff.
- Nododd rhai ymatebwyr fod gan bobl ganfyddiad negyddol o weithio yn y sector cyhoeddus o gymharu â'r sector preifat. Gwnaethant gyfeirio at farn negyddol pobl am y proffesiwn, y lefel uchel o graffu cyhoeddus a sylw gwael yn y cyfryngau. Mae cwynion ac anghydfodau yn cael eu gwaethygu gan y cyfryngau cymdeithasol. Nodwyd nad yw'r sector preifat yn wynebu'r un lefel o gwyno a chraffu. Nodwyd hefyd fod natur wrthdrawiadol y gwaith yn effeithio ar forâl, boddhad yn y swydd a llesiant. Nododd rhai ymatebwyr fod

swyddogion yn wynebu cryn nifer o gwynion, ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a heriau sy'n gysylltiedig â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) wrth geisio cyflawni o fewn terfynau amser statudol. Nododd rhai ymatebwyr, oherwydd hyn, fod staff yn aml yn teimlo dan bwysau ac nad ydynt yn cael eu cefnogi a bod y pwysau a'r gofynion gwaith hyn yn peri i staff symud i'r sector preifat neu newid diwydiant.
- Mae cyfyngiadau cyllidebol yn atal ACLlau rhag recriwtio prentisiaid a myfyrwyr sy'n atal twf staff yn fewnol. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith nad yw cyrsiau prifysgol yn paratoi myfyrwyr ar gyfer y gweithle am nad ydynt yn deall y system gynllunio yn llawn. At hynny, mae llai o unigolion yn ennill cymwysterau cynllunio ac, yn lle hynny, maent yn mynd i ‘yrfaoedd cysylltiedig’.
- Cododd sawl ymatebydd bryderon bod amgylchedd y swyddfa a'r systemau TG yn aml yn wael sy'n gosod cyfyngiadau ar staff, gydag eraill yn nodi nad yw'n annog staff i fod yn y swyddfa. Lleisiwyd pryderon bod gweithio gartref yn arwain at forâl isel yr ystyrir ei fod yn atal graddedigion a recriwtiaid newydd rhag magu profiad o gydweithwyr.

## Cwestiwn 49: A yw'r cyflogau a'r strwythurau gyrfa presennol yn ddigonol i gadw staff cynllunio?

Atebodd 49 o ymatebwyr y cwestiwn hwn, lle roedd 69% o'r farn bod cyflogau a strwythurau gyrfa presennol yn annigonol i gadw staff cynllunio, nid oedd yr un ymatebydd yn anghytuno ac nid oedd 31% yn gwybod. Ymdriniwyd â llawer o'r safbwyntiau a fynegwyd o dan gwestiwn 48 ac nid ydynt wedi'u hailadrodd yma. Crynhoir sylwadau ychwanegol sy'n ymwneud â heriau sy'n gysylltiedig â chadw staff, fel a ganlyn:

- Cyfyngedig yw'r strwythurau gyrfa i uwch-swyddogion oherwydd strwythurau staffio anhyblyg a chyfyngiadau cyllidebol mewn ACLlau.
- Prin yw'r swyddi mewn ACLlau yn gyffredinol ac, felly, mae staff yn aml yn symud i'r sector preifat neu rannau eraill o'r sector cyhoeddus lle mae mwy o gyfleoedd.
- Fel arfer, mae ACLlau mwy o faint yn cynnig cyflogau uwch o gymharu â'u cymheiriaid llai o faint. Yn aml, mae ACLlau llai o faint a mwy gwledig yn wynebu heriau sylweddol o ran recriwtio staff.
- Lleihad mewn dyfarniadau cyflog blynyddol oherwydd cyni yn y sector cyhoeddus.
- Nid yw ‘pensiwn da’ bob amser yn ddigonol i wrthbwyso cyflog is.

## Cwestiwn 50: A yw eich ACLl yn cynnig cyfleoedd i gynllunwyr ar ddechrau eu gyrfaoedd ar hyn o bryd? Ydych chi wedi cael llwyddiant o ran cadw staff?

Atebodd 22 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nododd sawl ACLl y dylid cynnig cyfleoedd i gynllunwyr yn gynnar yn eu gyrfa megis lleoliadau i fyfyrwyr a rolau blwyddyn i raddedigion. Mae rhai wedi llwyddo i gadw cynllunwyr drwy swyddi gwag mewnol neu gytundebau cyllidebol, tra nododd eraill eu bod yn cynnig lleoliadau i

fyfyrwyr ond nad oedd swyddi ar gael yn eu sefydliadau ar ôl i'r myfyrwyr gwblhau eu hastudiaethau.

Mae rhai ACLlau wedi defnyddio'r rhaglen Llwybrau at Gynllunio ac wedi llwyddo i recriwtio cynlluniwr graddedig tra na chafodd ACLl arall unrhyw geisiadau er ei fod yn cymryd rhan yn y rhaglen. Roedd rhai ACLlau yn cefnogi cynllunwyr yn gynnar yn eu gyrfa drwy ariannu cyrsiau, eu rhyddhau am ddiwrnod er mwyn iddynt ddilyn cyrsiau wedi'u hachredu gan yr RTPI a thalu ffioedd aelodaeth yr RTPI. Nodwyd, ar ôl i gynllunwyr ennill eu cymwysterau a magu profiad, eu bod yn aml yn symud ymlaen oherwydd y cyfleoedd prin iddynt gamu ymlaen mewn gyrfa, naill ai i ACLl arall sy'n talu cyflog gwell neu i'r sector preifat. Cyfeiriodd rhai ACLlau at gyfyngiadau cyllidebol neu ddiffyg arian, sy'n arwain at ymdrechion i gael cymeradwyaeth ar gyfer swyddi a oedd ganddynt yn flaenorol. Nododd eraill ei bod yn ystyried cynlluniau prentisiaeth neu gynlluniau i raddedigion am nad oes unrhyw gyfleoedd ar gael ar hyn o bryd.

## Cwestiwn 51: Yn ychwanegol at gynyddu ffioedd cynllunio, ym mha ffyrdd eraill y gallai Llywodraeth Cymru helpu i wella gallu a galluogrwydd o fewn adrannau cynllunio lleol a llwybrau i ymuno â'r proffesiwn?

Cyflwynodd 37 o ymatebwyr safbwyntiau ac awgrymiadau ar gyfer sawl dull o wella gallu:

Lleoliadau hyfforddiant, lleoliadau i raddedigion a myfyrwyr a lleoliadau prentisiaeth

- Cyllid a chymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleoliadau newydd i fyfyrwyr, rolau i raddedigion a rolau prentisiaeth mewn ACLlau ac i alluogi staff presennol i gael eu rhyddhau am ddiwrnod er mwyn dilyn cwrs.
- Dylid gwneud llwybrau wedi'u hachredu gan yr RTPI yn haws ac yn fwy hygyrch ac awgrymwyd y dylai'r RTPI hefyd gynnig eu prentisiaethau eu hunain. Awgrymodd rhai hefyd fod angen cyrsiau cynllunio sy'n caniatáu astudio'n rhan-amser neu ddysgu o bell wrth weithio mewn rôl gynllunio.
- Dylai fod gan ACLlau gynllun secondio er mwyn i swyddogion allu symud rhwng ACLlau er mwyn magu profiad.
- Dylid darparu cyllid ar gyfer datblygiad proffesiynol a hyfforddiant staff proffesiynol presennol er mwyn gwella sgiliau a morâl. Gallai hyn gynnwys meysydd megis bioamrywiaeth a chreu lleoedd.
- Dylid hyfforddi staff presennol nad ydynt yn rhai proffesiynol er mwyn iddynt gamu ymlaen i faes cynllunio neu feysydd arbenigol cysylltiedig.

Rheoliadau ffioedd

- Dylid cario incwm o ffioedd rheoliadau ymlaen i gydbwyso blynyddoedd ag incwm positif ac incwm negyddol. Byddai hyn yn galluogi cyflogaeth ychwanegol
- drwy gynnig contractau byrdymor a chyflogi graddedigion.

Delwedd

- Dylid hyrwyddo'r proffesiwn mewn modd mwy cadarnhaol oherwydd ei ddelwedd negyddol, yn arbennig yn y cyfryngau. Gallai modelau rôl helpu i newid canfyddiadau a gallai cyflogwyr a chyrff proffesiynol ymgysylltu ag ysgolion er mwyn hysbysu plant am y rôl y mae cynllunio yn ei chwarae o ran mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a materion amgylcheddol.

Newidiadau i bolisi, deddfwriaeth a chanllawiau

- Dylid symleiddio polisi a chanllawiau er mwyn sicrhau bod pob ACLl yn gweithredu mewn ffordd safonedig a bydd angen hyfforddiant a chanllawiau pan gyflwynir gofynion deddfwriaethol newydd.
- Newidiadau a argymhellir megis cynlluniau dirprwyo cenedlaethol, polisïau rheoli datblygu cenedlaethol, ffurflenni cyn gwneud cais cenedlaethol a gwella'r cynllun dilysu cenedlaethol er mwyn sicrhau bod pob cais yn cael ei gyflwyno gyda'r wybodaeth gywir.

## Cwestiwn 52: A oes gennych unrhyw syniadau eraill er mwyn helpu i ddarparu adnoddau ar gyfer y system gynllunio?

Rhoddodd 37 o ymatebwyr safbwyntiau ac awgrymiadau. Mae crynodeb o'r safbwyntiau a gyflwynwyd nad ymdriniwyd â nhw o dan gwestiynau blaenorol fel a ganlyn:

- Gellid defnyddio'r sector preifat yn y byrdymor er mwyn helpu i fynd i'r afael ag ôl-groniadau o geisiadau wrth aros i effeithiau adennill costau llawn gael eu gwireddu'n llawn.
- Dylid gwneud ymchwil i nodi cyfleoedd i ddefnyddio adnoddau yn fwy effeithlon er mwyn gwella'r system gynllunio o ran y ffordd y gellid gwneud y defnydd gorau posibl o amser swyddogion.
- Mae ACLlau yn wynebu costau diangen, megis hysbysebion mewn papurau newydd, felly dylid nodi'r rhain a'u dileu neu eu diwygio er mwyn lleihau costau.
- Mae'r gwaith o baratoi CDLlau yn cynnwys adnoddau staffio ac adnoddau ariannol sylweddol. Dylid lleihau'r gofynion o ran creu lleoedd a'r Llawlyfr a llunio polisïau rheoli datblygu cenedlaethol er mwyn symleiddio'r broses.
- Gellid defnyddio Cytundebau Perfformiad Cynllunio yn fwy rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi mwy o ganllawiau ar sut i'w defnyddio.
- Argymhellodd rhai ymatebwyr newidiadau i reoliadau a hawliau datblygu a ganiateir er mwyn lleihau nifer y ceisiadau cynllunio a symleiddio'r broses gynllunio. At hynny, roedd ymatebydd o ACLl o'r farn y dylid diweddaru'r cynllun dilysu er mwyn sicrhau bod ceisiadau'n cael eu cyflwyno gyda'r dystiolaeth gywir a bod gwelliannau yn cael eu gwneud i systemau TG er mwyn darparu ar gyfer dilysu a gweithio mwy effeithiol ac effeithlon drwy ddeallusrwydd artiffisial.
- Nododd rhai ymatebwyr fod angen ystyried adnoddau ymgyngoreion statudol a chyrff perthnasol eraill hefyd.
- Awgrymodd ymatebydd arall, os na fydd adennill costau llawn yn llwyddiannus, y gallai dirprwyo i Gynghorau Cymuned a Thref fod yn fuddiol.

## Cwestiwn 53: A oes galw am gynlluniau bwrsari i israddedigion/graddedigion yng Nghymru? Os ydych yn ymateb ar ran ACLl, faint o unigolion y byddech yn dymuno eu cynnig a pha mor aml?

Atebodd 43 o ymatebwyr y cwestiwn hwn yn benodol. Roedd 49% o'r ymatebwyr yn cytuno bod galw am gynlluniau bwrsari yng Nghymru ac nid oedd 51% yn gwybod. Nid oedd yr un ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig.

## Cwestiwn 54: A oes galw am gynlluniau prentisiaeth i israddedigion/graddedigion yng Nghymru? Os ydych yn ymateb ar ran ACLl, faint o unigolion y byddech yn dymuno eu cynnig a pha mor aml?

Atebodd 42 o ymatebwyr y cwestiwn hwn yn benodol. Roedd 50% o'r ymatebwyr yn cytuno bod galw am gynlluniau prentisiaeth yng Nghymru ac nid oedd 50% yn gwybod. Nid oedd yr un ymatebydd yn anghytuno â'r cynnig. Mae safbwyntiau a fynegwyd yn aml ar gyfer cwestiynau 53 a 54 fel a ganlyn:

- Dylid rhoi blaenoriaeth i gynlluniau bwrsari er mwyn meithrin gallu yn gyflym a'r farn gyffredinol oedd y dylai hyn gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.
- Cyfeiriwyd at fenter Llwybrau at Gynllunio sydd wedi bod yn llwyddiannus ac sy'n cael ei chefnogi.
- Roedd y rhan fwyaf o ACLlau o'r farn y dylai fod o leiaf un unigolyn bob blwyddyn ond nododd ACLlau eraill y byddai'n well ganddynt gael dau wedi'u lleoli yn yr adrannau rheoli datblygu a pholisi.
- Awgrymodd rhai y byddai trefnu lleoliadau ar sail ranbarthol yn fwy effeithiol.
- Nododd eraill fod angen hyblygrwydd am fod amgylchiadau yn newid dros amser gydag ymatebydd arall yn nodi bod angen gwneud mwy o ymchwil er mwyn deall sut y byddai'n gweithio yn ymarferol.
- Dylid hefyd ystyried cymorth i feysydd eraill megis ecoleg, treftadaeth a'r dirwedd oherwydd y prinder unigolion cymwys yn y meysydd hyn.
- Dylai fod cymorth ar gyfer prentisiaethau Lefel 6 i fyfyrwyr Safon Uwch sy'n gadael yr ysgol a byddai angen cymorth ariannol ar ACLlau oherwydd cyllidebau.

## Cwestiwn 55: Yn eich barn chi, ble y dylai adnoddau staffio ychwanegol a sicrhawyd drwy gynlluniau bwrsari/prentisiaeth gael eu cyfeirio er mwyn cael yr effaith fwyaf? Er enghraifft, o fewn gwasanaethau cynllunio ACLlau a/neu ar gyfer cyflawni swyddogaethau cynllunio strategol ac arbenigol Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Atebodd 31 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylai adnoddau staffio ychwanegol a fyddai'n cael eu sicrhau drwy gynlluniau bwrsari a phrentisiaeth gael eu cyfeirio i mewn i ACLlau er mwyn helpu i ddatrys problemau o ran recriwtio, gwella perfformiad, hyrwyddo'r Gymraeg a chyflawni

dyletswyddau statudol ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru. Awgrymwyd bod cynllunwyr a gaiff eu recriwtio drwy gynlluniau bwrsari/prentisiaeth yn debygol o fod yn ddibrofiad ac y byddant yn fwy gymwys i ymdrin â mân geisiadau. Bydd hyn yn galluogi swyddogion mwy profiadol i ymdrin â cheisiadau mwy o faint a cheisiadau cymhleth. At hynny, awgrymwyd y dylid cyfeirio ‘cynllunwyr sy'n datblygu’ i mewn i ACLlau er mwyn magu profiad ym meysydd gweinyddu, rheoli datblygu, gorfodi, dylunio trefol, creu lleoedd, ecoleg a chynllunio strategol.

Nododd ACLlau ei bod yn debygol bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn debygol o ddenu cynllunwyr profiadol i ffwrdd o ACLlau i ddechrau ac, felly, y bydd angen eu cyfeirio at ACLlau. Nodwyd bod staff cynllunio yn aros ar hyn o bryd yn yr un awdurdod heb gyfle i gamu ymlaen mewn gyrfa ac, felly, y bydd buddsoddi'n lleol yn creu cyfleoedd i staff symud i swyddi uwch megis Cyd-bwyllgorau Corfforedig.

Roedd rhai ymatebwyr yn anghytuno â hyn a gwnaethant nodi y dylai fod cymysgedd o adnoddau yn mynd i ACLlau a Chyd-bwyllgorau Corfforedig, lle mae angen cynllunwyr ac arbenigwyr sy'n siarad Cymraeg. At hynny, awgrymwyd y dylid canolbwyntio ar Gyd-bwyllgorau Corfforedig i ddatblygu gwybodaeth am faterion arbenigol megis ynni adnewyddadwy er mwyn meithrin gallu a gwella prosesau gwneud penderfyniadau yn lleol ac yn rhanbarthol.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 47-55

Rydym yn croesawu cyfraniadau ystyriol ymatebwyr i'r cwestiynau am sgiliau a gallu mewn ACLlau, gan gynnwys cyflwyno awgrymiadau ar gyfer ffyrdd y gallwn ddarparu cymorth. Rydym yn ymwybodol o'r heriau y mae ACLlau yn eu hwynebu ac yn cydnabod nad oes un ateb syml i'r heriau sy'n gysylltiedig â darparu adnoddau ar gyfer y system gynllunio.

Rydym yn croesawu'r ymatebion a gafwyd sy'n ymwneud â'r galw am gynlluniau bwrsari a phrentisiaeth. Er mwyn cynyddu'r cyflenwad o newydd-ddyfodiaid sy'n ymuno â'r proffesiwn cynllunio, rhoddwyd cyllid ar gyfer Bwrsarïau Cynllunio drwy'r Cynllun Llwybrau at Gynllunio ym mlwyddyn ariannol 23/24. Caiff ei weinyddu ar ein rhan gan CLlLC. Rydym hefyd yn ymrwymedig i gyllido bwrsarïau yn y flwyddyn ariannol hon ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn nodi'r galw mewn awdurdodau cynllunio.

Yng Ngogledd Cymru rydym wedi ymateb i fenter ranbarthol Awdurdodau Cynllunio Lleol Gogledd Cymru, mae cyllid wedi'i ddyrannu i dalu am ddau Uwch-Gynlluniwr yng Nghydwasanaeth Cynllunio Gogledd Cymru. Mae'r fenter yn cynnwys sefydlu canolfan sgiliau cynllunio neu ganolfan ragoriaeth, er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau seilwaith strategol a mawr yng Ngogledd Cymru. Byddem yn croesawu cynigion tebyg o ranbarthau eraill Cymru.

Rydym wedi comisiynu'r RTPI i wneud darn o waith ar ‘gynllunio'r gweithlu’ a gyhoeddir yn yr haf. Yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, bydd yn rhoi darlun manwl o'r sefyllfa o ran gallu, adnoddau a sgiliau ym mhob gwasanaeth cynllunio yn y sector cyhoeddus.

Byddwn yn parhau i fyfyrio ar gyfraniadau gwerthfawr ymatebwyr a byddwn yn ystyried canfyddiadau'r ymchwil i'r gweithlu yn ofalus wrth inni barhau i ddatblygu rhaglen gymorth yn y dyfodol.

## Cwestiwn 56: Beth yw eich barn ar rinweddau a heriau sefydlu cydwasanaethau rhanbarthol/mwy na lleol?

Atebwyd y cwestiwn hwn gan 46 o ymatebwyr. Er i rai ymatebwyr bwysleisio manteision gwasanaethau rhanbarthol, mynegodd nifer sylweddol bryderon hefyd ynghylch yr heriau a allai godi.

Rhinweddau

Mynegodd rhai ymatebwyr gefnogaeth i fesurau a fyddai'n darparu sgiliau arbenigol yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, am fod awdurdodau cynllunio lleol yn wynebu prinder sgiliau ar hyn o bryd. Nododd sawl ymatebydd hefyd fod y dull hwn o weithredu yn gweithio'n effeithiol ar hyn o bryd mewn perthynas â meysydd mwynau a chynllunio gwastraff a meysydd arbenigol eraill. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai ymestyn y dull hwn o weithredu i gynnwys sectorau megis ynni adnewyddadwy a dal carbon ychwanegu gwerth. Nodwyd hefyd y gallai cydwasanaethau fod yn fuddiol i ACLlau llai o faint, gan y byddai hyn yn sicrhau mwy o arbedion effeithlonrwydd a chost.

Ymhlith manteision eraill cydwasanaethau y rhoddwyd gwybod amdanynt roedd creu timau mwy o faint, gwella strwythurau gyrfa a gwella gwaith cynllunio'r gweithlu. Roedd manteision ychwanegol yn cynnwys casglu tystiolaeth a datblygu polisi, sy'n hanfodol er mwyn mynd i'r afael â materion trawsffiniol.

Heriau

Roedd gan rai ymatebwyr bryderon y gallai cydwasanaethau gymryd adnoddau neu staff oddi ar ACLlau, gydag eraill yn nodi bod prinder arbenigwyr i'w rhoi mewn gwasanaethau arbenigol. Cyfeiriwyd at y ffaith, heb newydd-ddyfodiaid i ymgymryd â phrif gyfrifoldebau ACLlau, nad oes digon o gapasiti i aelodau presennol o staff drosglwyddo. Codwyd pryderon hefyd ynghylch llwythi gwaith staff, lle y gallai fod angen iddynt wneud gwaith lleol a rhanbarthol ac ystyriwyd na fyddai cydwasanaethau, o reidrwydd, yn helpu gan fod yr un problemau yn bodoli o ran adnoddau a recriwtio.

At hynny, cododd sawl ymatebydd o bob grŵp bryderon ynghylch llywodraethu a chyllid. Lleisiwyd pryderon ynghylch sut y byddai'r galw am gyngor arbenigol o du pob awdurdod yn cael ei reoli a sut y gellid sicrhau bod yr un cyngor yn cael ei roi i bob awdurdod lleol. Yn gysylltiedig â hyn, nododd ymatebydd y gall fod yn anodd cydbwyso gwahanol flaenoriaethau gwleidyddol a nododd ymatebydd arall y gallai fod effaith negyddol ar y canfyddiad o ddemocratiaeth ac atebolrwydd lleol. At hynny, nododd rhai y gallai teithio fod yn anodd petai swyddogion wedi'u lleoli dros ardal fawr.

Cododd rhai ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch y ffaith nad oes gan swyddogion mewn gwasanaethau rhanbarthol/cydwasanaethau wybodaeth leol a allai arwain at benderfyniadau gwael gan nodi mai prosesau gwneud penderfyniadau lleol sydd orau.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen gwneud rhagor o waith ymchwil ac ymgynghori er mwyn ystyried y manteision a'r heriau sy'n gysylltiedig â rhanbartholi gwasanaethau.

## Cwestiwn 57: Ydych chi'n cytuno y dylai hybiau sgiliau cynllunio gael eu lleoli o fewn cyd-bwyllgorau corfforedig?

Atebodd 43 o ymatebwyr y cwestiwn hwn yn benodol a chymysg fu'r safbwyntiau a fynegwyd.  Roedd 16% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai canolfannau sgiliau cynllunio fod wedi'u lleoli mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig, roedd 23% yn anghytuno ac nid oedd 60% yn gwybod. Mae safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

<u>Cymorth</u>

- Gallai lleoli canolfannau sgiliau mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig osgoi dyblygu gwaith ACLlau a'i gwneud yn bosibl i ganolfannau sgiliau weithio ar CDSau. At hynny, ymddangosai fod rhannu adnoddau rhwng awdurdodau yn rhesymegol ac y byddai'n arloesol gan alluogi swyddogion cynllunio ac ymgyngoreion i weithio ar draws ffiniau gan rannu sgiliau ac arbenigedd a allai feithrin gallu ychwanegol. Fodd bynnag, nodwyd y dylai canolfannau sgiliau feithrin gallu yn hytrach na rhoi pwysau ar adnoddau presennol ACLlau.
- Roedd rhai o'r farn y gallai fod yn fwy priodol i ganolfannau sgiliau fod mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig ar gyfer awdurdodau llai o faint, ond nodwyd bod gan awdurdodau mwy o faint amrywiaeth o sgiliau eisoes.

<u>Pryderon</u>

- Nododd rhai nad oes angen i ganolfannau sgiliau fod mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig o reidrwydd. Cyfeiriwyd at Cydwasanaeth Mwynau a Gwastraff Gogledd cymru sy'n gweithio'n dda o dan y trefniadau presennol.
- Awgrymodd sawl ymatebydd y gallai ddulliau eraill megis cydwasanaethau yn cael eu harwain gan Lywodraeth Cymru neu adnodd a rennir ar gyfer pob ACLl yn genedlaethol, fod yn fwy priodol.
- Pryderon y gallai'r dull Cyd-bwyllgorau Corfforedig ychwanegu biwrocratiaeth a phellhau cynllunwyr oddi wrth gymunedau lleol. Lleisiwyd pryderon hefyd ynghylch dyblygu swyddogaethau ACLlau.
- At hynny, cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch adnoddau yn cael eu cymryd oddi ar ACLlau oherwydd prinder cynllunwyr profiadol yn y system.
- Nododd rhai ymatebwyr y gallai fod problemau gyda sgiliau arbenigol yn cael eu lleoli mewn Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn unig, a allai arwain at ddiffyg gwybodaeth leol a gwasanaethau arafach o ansawdd is. Nododd rhai ymatebwyr fod angen ymdrin â materion penodol megis ecoleg a dylunio yn lleol.
- Nododd rhai ymatebwyr fod angen gwneud rhagor o waith ymchwil er mwyn ystyried sut y byddai canolfan sgiliau mewn Cyd-bwyllgor Corfforedig yn gweithio yn ymarferol a sut y byddai galwadau croes yn cael eu rheoli.

## Cwestiwn 58: Yn eich barn chi, sut y gellid darparu adnoddau ar gyfer hyb(iau) sgiliau cynllunio gan ystyried gofynion llywodraethu, ariannol a staffio?

Atebodd 31 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Crynhoir awgrymiadau mewn perthynas â llywodraethu, cyllido a staffio canolfannau sgiliau cynllunio nad ymdriniwyd â nhw eisoes o dan y cwestiynau blaenorol fel a ganlyn.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at fodel Mwynau a Gwastraff Gogledd Cymru, sy'n ddull effeithiol o fynd i'r afael â'r materion hyn, yn eu barn nhw. Nododd sawl un y byddai angen i Lywodraeth Cymru gyllido'r canolfannau gan nad oes gan ACLlau ddigon o gyllid oherwydd adnoddau cyfyngedig a, phetai ACLlau yn darparu'r cyllid hwn, y byddai hyn yn gwrthdaro ag ymdrechion o ran adennill costau llawn. Nododd ymatebydd o ACLl y dylai cyllid fod yn seiliedig ar lefel y cymorth sydd ei angen ar gyfer pob prosiect penodol ac y byddai angen cydbwyso cost defnyddio'r adnodd â rheoli timau presennol.

Awgrymodd rhai ymatebwyr y gellid dyrannu adnoddau o bob awdurdod, gyda rhai yn nodi y gallai cyllid ddod o'r cynnydd mewn ffioedd. Cynigiodd ymatebydd arall y gallai fod angen cynyddu'r gyllideb graidd ar gyfer gwasanaethau statudol, tra roedd ymatebydd arall o'r farn, petai'r costau gofynnol yn gysylltiedig â materion nad ydynt yn ymwneud â chais cynllunio, y dylid nodi refeniw'r sector cyhoeddus.

Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod angen gwneud rhagor o waith ymchwil ac ymgynghori a gwnaethant awgrymu y dylid sefydlu gweithgor. Gwnaethant fynegi pryderon ynghylch cymhlethdod y maes hwn, a fyddai'n gofyn am ymdrechion ar y cyd gan sawl awdurdod ac i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â chyllido canolfannau sgiliau a darparu adnoddau ar eu cyfer.

## Cwestiwn 59: Ydych chi'n cytuno y gallai hybiau sgiliau cynllunio gael eu hariannu drwy ddefnyddio cyfran o incwm ffioedd gan bob ACLl i ddarparu adnoddau ar eu cyfer o bosibl?

Atebodd 45 o ymatebwyr y cwestiwn hwn a chafwyd amrywiaeth o safbwyntiau. Roedd 24% yn cytuno y gallai canolfannau sgiliau gael eu hariannu drwy ddefnyddio incwm o ffioedd, roedd 31% yn anghytuno ac nid oedd 44% yn gwybod. Mae safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

<u>Cymorth</u>

- Roedd rhai ymatebwyr o blaid y syniad, pe gallai gwasanaethau gael eu darparu gan yr ACLl o hyd.
- Nododd rhai yn y sector busnesau mai dim ond petai gwell effeithlonrwydd a chostau is yn cael eu sicrhau drwy gydwasanaethau y byddent yn cefnogi'r dull hwn o weithredu.
- Gofynnodd rhai ACLlau a fyddai'n hyn yn briodol am nad oeddent yn credu y byddai'r canolfannau yn cael eu defnyddio ar gyfer ceisiadau cyffredin na materion gorfodi ac y byddai canolfannau yn fwy perthnasol i geisiadau arbenigol geisio cyngor ganddynt.

- Roedd grwpiau â buddiant eraill o blaid y cynnig gan y gallai fod gan y canolfannau arbenigwyr ym maes ynni adnewyddadwy er mwyn helpu ACLlau i gyfrannu at nodau carbon sero. At hynny, gallai'r dull hwn o weithredu fod yn briodol ar gyfer mwynau a chynllunio gwastraff. Byddai cyllid pellach ar ffurf yr Ardoll Agregau hefyd yn helpu'r dull hwn o weithredu.

Pryderon a Thegwch

- Cododd ymatebwyr o ACLlau a'r sector busnes bryderon ynghylch y costau cysylltiedig. Nodwyd bod ACLlau eisoes yn wynebu problemau sylweddol o ran adnoddau a chyllidebau tyn. Felly, ystyriwyd y byddai cymryd incwm o ffioedd uwch yn anghynhyrchiol ac y byddai'n tanseilio ymdrechion mewn perthynas ag adennill costau llawn.
- Codwyd pryderon hefyd y byddai'n anodd darparu adnoddau ar gyfer y 'baich llywodraethu' ychwanegol. Codwyd pryderon hefyd ynghylch canfyddiad y cyhoedd o wasanaethau rhanbarthol. Gallai rhai ystyried ei bod yn haen arall o lywodraeth â chostau a manteision tra byddai'n well gan bobl leol weld arian yn cael ei fuddsoddi'n lleol.
- Lleisiodd rhai yn y sector busnes bryderon hefyd y gallai fod yn rhaid i ffioedd fod yn rhy ddrud er mwyn cyllido canolfannau sgiliau, a allai effeithio ar hyfywedd datblygiadau ac y byddai'n ddrutach na swyddog mewnol.
- Codwyd materion yn ymwneud â thegwch hefyd gydag ACLl yn nodi y byddai angen i'r trefniadau cyllido fod yn deg. Nododd ymatebydd fod ACLlau yn debygol o godi symiau gwahanol o incwm ffioedd yn dibynnu ar eu maint ac, felly, petai pob un yn talu canran benodol y gallai fod yn wahanol i bob ACLl ac achosi tensiwn.
- Nodwyd hefyd y dylai gwasanaethau fod yn seiliedig ar y galw, gan na fyddai pob ACLl yn ei ddefnyddio i'r un graddau. Pryderon nad oedd unrhyw sicrwydd y byddai'r incwm o ffioedd yn cael ei ddefnyddio wedyn i ddarparu gwasanaethau cynllunio yn yr ACLl lle y cafodd ei gynhyrchu.
- Roedd sawl ACLl ac unigolyn o'r farn y dylai cyllid gael ei ddyrannu'n genedlaethol yn lle hynny. Nododd un ACLl mai dyma'r ffordd fwyaf priodol ymlaen gan fod gan ACLlau lwythi gwaith cynyddol oherwydd sero net ac y dylai'r llywodraeth sicrhau bod ACLlau yn cael adnoddau priodol ar gyfer hyn.

Mae angen gwneud rhagor o waith

- Roedd sawl ACLl o'r farn bod hwn yn faes cymhleth lle y bydd angen gwneud rhagor o waith ac ymgynghori ac ymchwilio ymhellach er mwyn dod i gasgliad. Roedd ymatebwyr eraill o'r sector busnes a 'grwpiau eraill' hefyd yn ansicr ynglŷn â'r dull gweithredu a gwnaethant nodi nad oedd digon o wybodaeth ar gael i allu ateb y cwestiwn hwn ar hyn o bryd gan y byddai'n dibynnu ar strwythur a gweithgareddau'r ganolfan ynghyd â lefel mewnbwn staff.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 56-59.

Rydym yn croesawu cyfraniadau amrywiol yr ymatebwyr i'r cwestiynau am sefydlu a chyllido canolfannau sgiliau.

Rydym wedi comisiynu'r RTPI i wneud darn o waith ar 'gynllunio'r gweithlu' a gyhoeddir yn yr haf. Yn ogystal â'r ymatebion a gafwyd fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, bydd yn rhoi darlun manwl o'r sefyllfa o ran gallu, adnoddau a sgiliau ym mhob gwasanaeth cynllunio yn y sector cyhoeddus.

Roeddem yn falch o weld, fel rhan o'i ymateb i'r ymgynghoriad, fod cynnig gan ACLlau Gogledd Cymru i ehangu Cydwasanaeth Cynllunio Gogledd Cymru er mwyn cynnwys prosiectau ynni strategol a mawr, wedi'i gyflwyno. Rydym wedi darparu cyllid ar gyfer dwy rôl Uwch-gynllunydd i weithio ar geisiadau seilwaith ym mhob rhan o'r rhanbarth. Edrychwn ymlaen at weithio gyda'r Cydwasanaeth wrth i'r ffordd newydd arloesol a chadarnhaol o weithio ddatblygu.

Rydym yn annog pob ACLl i fanteisio ar wasanaethau rhanbarthol a chanolfannau sgiliau. Yn ein barn ni, dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o fynd i'r afael â'r heriau rydym yn eu hwynebu o ran sgiliau. Rydym yn ymrwymedig i gydweithio'n adeiladol ag ACLlau a Chyd-bwyllgorau Corfforedig i ddatblygu cynigion ymarferol a hyfyw er mwyn inni eu hystyried. Byddwn yn parhau i fyfyrio ar gyfraniadau gwerthfawr ymatebwyr a byddwn yn ystyried canfyddiadau'r ymchwil i weithlu'r RTPI yn ofalus wrth inni barhau i ddatblygu cynigion ar gyfer rhaglen gymorth yn y dyfodol.

## Cwestiwn 60: Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i newid y cyfnod adolygu statudol ar gyfer CDLlau o bedair i chwe blynedd?

Atebodd 49 o ymatebwyr y cwestiwn hwn a chafwyd amrywiaeth o safbwyntiau. Roedd 49% o'r ymatebwyr yn cytuno, roedd 31% yn anghytuno ac nid oedd 20% yn gwybod. Ar y cyfan, roedd ACLlau o blaid ymestyn y cyfnod adolygu ar gyfer CDLlau, roedd y sectorau busnes yn anghytuno ac nid oedd grwpiau eraill yn siŵr. Mae safbwyntiau a fynegwyd yn aml fel a ganlyn:

<u>Cytuno</u>

- Roedd nifer o ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ymestyn y cyfnod adolygu gan y byddai'n cynnig cyfleoedd i'r ACLl weithio ar roi'r cynllun ar waith, canllawiau cynllunio atodol a chanllawiau cyn y broses adolygu.
- Mae Cynlluniau Datblygu Lleol 2 wedi mynd yn fwy cymhleth ac maent yn gofyn am fwy o adnoddau ac, felly, byddai cyfnod estynedig yn synhwyrol.
- Nododd rhai ymatebwyr y byddai adnoddau yn cael eu rhyddhau i gefnogi gwaith cynllunio rhanbarthol ac na fyddai adolygiad cynharach yn cael ei wahardd pe bai angen cynnal un. Byddai ymestyn y cyfnod hefyd yn cyd-fynd â'r cyfnod chwe blynedd ar gyfer y CDS.
- Hefyd, roedd rhai ymatebwyr o ACLlau o'r farn bod Adroddiadau Monitro Blynyddol yn ddogfennau defnyddiol er mwyn nodi a yw cynlluniau yn gyfredol ac, felly, y gellid ymestyn y cyfnod adolygu er mwyn osgoi gwaith diangen ar CDLl newydd.
- Nododd rhai ymatebwyr y byddai'n well dileu 'dyddiadau dod i ben' CDLlau.

<u>Anghytuno</u>

- Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r sector busnes yn anghytuno â'r cynnig i ymestyn y cyfnod adolygu. Gwnaethant godi pryderon y byddai hyn dileu'r

cymhelliant i'r ACLl adolygu cynlluniau pan na fyddant yn cyflawni targedau perfformiad.

- Yn yr un modd, cododd ymatebwyr eraill bryderon bod adolygiadau o CDLlau a'r gwaith o baratoi CDSau yn cymryd llawer o amser ar hyn o bryd a chodwyd sawl pryder, petai CDLlau yn cael eu hadolygu'n llai aml, y byddai gwactod polisi nes i'r CDS gael ei roi ar waith.
- Nododd rhai ymatebwyr fod adolygiadau o CDLlau yn debygol o gael blaenoriaeth dros CDSau.
- Roedd sawl ymatebydd o'r farn y dylai'r cyfnod adolygu barhau fel y mae ar hyn o bryd ac y dylid darparu cyllid priodol ar gyfer maes cynllunio strategol.
- Roed sawl ymatebydd o'r farn y byddai cyfnodau adolygu hwy yn arwain at fwy o gynlluniau a pholisïau anghyfredol a all fod yn rhwystr i gyflawni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol (cartrefi, swyddi a sero net).
- Codwyd pryderon hefyd y gallai'r ACLl ystyried bod hyn yn gyfle i wneud arbedion yn y gwasanaeth polisi cynllunio a fyddai'n arwain at golli cynllunwyr profiadol, sydd eisoes yn brin, gan achosi problemau wrth adolygu a pharatoi cynlluniau newydd.

## Cwestiwn 61: Ydych chi'n credu y byddai cyfnod adolygu byrrach neu hwy yn fwy priodol?

Atebodd 39 o ymatebwyr y cwestiwn hwn a chafwyd amrywiaeth o safbwyntiau a grynhoir fel a ganlyn:

<u>Cadw'r cyfnod presennol</u>

- Roedd sawl ymatebydd o bob grŵp o'r farn bod y cyfnod adolygu presennol yn briodol. Mae hyn yn sicrhau bod CDLlau yn cael eu cadw'n gyfredol. At hynny, awgrymwyd bod y broses o baratoi'r cynllun eisoes yn rhy hir ac, felly, na ddylid peri rhagor o oedi i adolygiadau.
- Codwyd pryderon bod gan y sail dystiolaeth sydd wrth wraidd y cynllun datblygu ddyddiad dod i ben naturiol a, phe na bai tystiolaeth yn cael ei hadolygu, y gallai hyn achosi oedi i geisiadau cynllunio petai gwybodaeth newydd yn dod i'r amlwg.
- Nododd sawl ACLl ei bod yn annhebygol y byddai ymestyn y cyfnod yn rhydddhau adnoddau am fod nifer y staff mewn timau polisi ACLlau eisoes yn fach ac y byddent yn parhau i weithio ar brosiectau eraill er mwyn rhoi'r CDLl a phroses adolygu'r cynllun ar waith.
- Yn ogystal â hyn, nododd ymatebydd o ACLl y gallai newid y cyfnod i chwe blynedd arwain at ganlyniadau anfwriadol gan y gallai'r ACLl ystyried bod hyn yn gyfle i wneud arbedion yn y gwasanaeth polisi cynllunio a allai arwain at golli cynllunwyr priodol sy'n brin, a fyddai'n achosi problemau pan fyddai angen adolygiad yn cael ei gynnal neu pan fyddai angen paratoi cynllun newydd.

<u>Cyfnod hwy</u>

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r cyfnod adolygu hwy yn golygu bod modd gwneud gwaith ar CDSau gydag ymatebydd o ACLl yn nodi y byddai cylch chwe blynedd yn galluogi cydamseru â'r amserlen ar gyfer CDSau. At

hynny, roedd rhai ymatebwyr yn cytuno â'r cynnig i ymestyn y cyfnod adolygu gan y byddai hyn yn rhoi hyblygrwydd ar gyfer adnoddau a staffio ac yn lleihau'r pwysau ar ACLlau ar yr un pryd.

- Awgrymwyd y dylid ymestyn y cyfnod adolygu oherwydd cymhlethdod cynyddol CDLlau, sy'n gofyn am fwy o fuddsoddiad ac adnoddau. At hynny, nododd ymatebydd o ACLl fod prinder staff a chystadleuaeth am waith technegol gan ymgynghorwyr preifat yn golygu bod y broses gwneud cynlluniau yn heriol. Nodwyd y byddai adolygiad cynharach yn cael ei gychwyn petai Adroddiad Monitro Blynyddol yn darparu tystiolaeth nad yw'r CDLl yn cyflawni ei nodau.

## Cwestiwn 62: Beth fyddai'r goblygiadau o ran adnoddau, gan gynnwys adnoddau staff ac adnoddau ariannol, pe bai'r cyfnod adolygu statudol yn cael ei newid i gyfnod adolygu chwe blynedd?

Atebodd 30 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Ymdriniwyd â'r holl sylwadau a gafwyd o dan y cwestiwn hwn yn y cwestiynau blaenorol ac nid ydynt wedi cael eu hailadrodd yma.

## Cwestiwn 63: I ba raddau y byddai cyfnod adolygu chwe blynedd yn helpu ACLlau i symud tuag at yr agenda gyflawni ranbarthol?

Atebodd 32 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Ymdriniwyd â llawer o'r sylwadau a gafwyd o dan y cwestiwn hwn yn y cwestiynau blaenorol ac nid ydynt wedi cael eu hailadrodd yma. Ar y cyfan, ystyriwyd bod angen lefel briodol o gyllid a staff ar gyfer CDSau yn eu rhinwedd eu hunain gan y bydd yn anodd cyflawni'r CDLl a'r CDS o ystyried y sefyllfa bresennol o ran adnoddau. At hynny, nodwyd y bydd cyflawni rhanbarthol yn dibynnu ar allu'r ACLl i gadw neu ddenu cynllunwyr ac arbenigwyr cymwysedig ac a fydd ganddynt adnoddau arianno i fwrw ymlaen â CDS. Fodd bynnag, roedd ymatebydd o ACLl o'r farn mai Cyd-bwyllgorau Corfforedig fyddai'n gyfrifol  am drefnu staff ac adnoddau. At hynny, nododd ymatebydd o ACLl y gallai colli adnoddau ACLlau i waith rhanbarthol arwain at golli arbenigedd ar faterion polisi lleol ac na fydd yn helpu i sicrhau cydnerthedd. Codwyd pryderon hefyd y gallai canolbwyntio ar gynllunio rhanbarthol achosi i gymunedau deimlo nad oes ganddynt fewnbwn mewn gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol. Er bod rhai o'r farn, pe gellid cydgysylltu CDSau a CDLlau, y gallai hyn ddod â rhai manteision o ran adnodau.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 60-63.

Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion a gafwyd mewn perthynas ag ymestyn y cyfnod adolygu ar gyfer CDLlau. Yn seiliedig ar yr ymatebion a gafwyd, a'r diffyg sicrwydd y byddai hyn yn cefnogi'r broses o newid i gynllunio rhanbarthol, ni fyddwn yn bwrw ymlaen â'r cynnig hwn ar hyn o bryd. Byddwn yn parhau i adolygu'r mater hwn yn rheolaidd wrth i CDSau gael eu datblygu yn y rhanbarthau.

## Cwestiwn 64: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol ein cynigion ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn

## unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?**

**Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?**

Atebodd 27 o ymatebwyr y cwestiwn hwn ac fe'u crynhoir fel a ganlyn:

<u>Effeithiau cadarnhaol</u>

Ystyrir y Gymraeg mewn ceisiadau cynllunio yn unol â deddfwriaeth berthnasol, tra bod CDLlau yn pennu'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau, sy'n cynnwys ystyried y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r gwaith o ddatblygu polisïau yn gostus ac, felly, gallai cynnydd mewn ffioedd golygu bod modd cael gafael ar arbenigedd lle y bo'n briodol. Nodwyd hefyd y bydd gan system sy'n fwy cadarn yn ariannol ddarpariaethau gwell ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg. Nodwyd rhai hefyd y byddai cyfleoedd hyfforddiant, drwy'r cynlluniau prentisiaeth a'r cynlluniau i raddedigion, yn helpu i gadw siaradwyr Cymraeg mewn timau cynlluniau a'u recriwtio iddynt.

<u>Effeithiau negyddol</u>

Nododd rhai ymatebwyr y gallai newid i gynllunio rhanbarthol gael effaith andwyol. Lleisiwyd pryderon, petai staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu symud o ACLl i swyddfa ranbarthol, y gallai Saesneg fod yn iaith fwy amlwg. Awgrymwyd y gellid goresgyn hyn drwy grwpio staff sy'n siarad Cymraeg mewn timau Nodwyd hefyd y gallai newid i gynllunio rhanbarthol olygu bod llai o sylw yn cael ei roi i'r Gymraeg am fod lefelau amlygrwydd y Gymraeg yn wahanol ym mhob ACLl. Nododd ymatebydd o grŵp 'â buddiant' ei bod yn bwysig bod effaith cynigion ar ffermydd teuluoedd Cymraeg yn cael ei hystyried, am fod y Gymraeg mewn ardaloedd gwledig yn cael ei chynnal gan ffermydd ffyniannus, sy'n golygu y bydd unrhyw gynigion sy'n cael effaith negyddol ar fferm yn effeithio ar y Gymraeg.

Roedd ymatebydd arall yn pryderu y gallai canolbwyntio gormod ar sgiliau Cymraeg gael effaith negyddol ar recriwtio mewn ACLlau sy'n cyffinio â Lloegr. Felly, ystyriwyd bod angen i bob gwasanaeth ac ymgynghoriad fod yn y ddwy iaith.

## Cwestiwn 65: Yn eich barn chi, a allai unrhyw rai o'ch cynigion gael eu llunio neu eu newid er mwyn iddynt:

- **gael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau mwy cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu**
- **liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

Atebodd 18 o ymatebwyr y cwestiwn hwn. Nid oedd llawer o ymatebwyr yn credu bod angen gwneud diwygiadau. Roedd ymatebydd o ACLl o'r farn y dylai'r strwythur

ffioedd a'r wybodaeth ategol nodi'n glir pan fydd ystyriaeth wedi'i rhoi i safonau'r Gymraeg a nodi costau gwasanaeth dwyieithog.

Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at bwysigrwydd cael cynllunwyr sy'n siarad Cymraeg. Awgrymodd ACLl y gall staff sy'n siarad Cymraeg gefnogi'r rhai sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth yn Gymraeg a meddu ar ddealltwriaeth ehangach o Bolisi Cynllunio Cymru sy'n amlinellu sut y gall cynllunio effeithio ar y Gymraeg.

Awgrymodd ymatebydd arall y dylid grwpio siaradwyr Cymraeg mewn canolfannau rhanbarthol er mwyn annog y defnydd o'r Gymraeg. At hynny, nododd dau Awdurdod Cynllunio Lleol a grŵp â buddiant y byddai cael cynlluniau i raddedigion a phrentisiaethau yn cael effaith gadarnhaol drwy greu cyfleoedd i aros yng Nghymru a gwella darpariaethau ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ym maes cynllunio. Argymhellodd ACLl y dylai'r gwaith o weithredu cynlluniau bwrsari gael ei wneud gan sefydliadau academaidd yng Nghymru er mwyn sicrhau twf sgiliau Cymraeg. Roedd grŵp â buddiant hefyd o'r farn y bydd gan system ariannol gadarn well darpariaethau ar gyfer darparu gwasanaethau yn Gymraeg.

Argymhellodd ACLl y dylid cyflwyno dangosyddion cydnerthedd er mwyn mesur gallu ieithyddol ac y dylai fod gan unrhyw systemau cynllunio electronig fwy o gyfleoedd iaith.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiynau 63-65

Rydym yn croesawu'r ymatebion ystyriol a gafwyd mewn perthynas ag effeithiau ein cynigion ar y Gymraeg. Rydym yn cytuno na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Rydym yn falch bod cefnogaeth gyffredinol i'n cynigion mewn perthynas â chynyddu ffioedd ac yn nodi y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol yn gyffredinol. Rydym hefyd yn nodi y bydd cyllid ar gyfer bwrsarïau a sgiliau yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy gadw a recriwtio staff yng Nghymru. Nodwn mai cymysg yw'r farn ynglŷn â'n cynigion mewn perthynas â'r agenda ranbarthol. Defnyddir yr ymatebion a gafwyd i lywio Asesiadau Effaith er mwn cefnogi'r Rheoliadau Ffioedd ac ystyrir sylwadau eraill wrth i'n cynigion i wella gallu a chydnerthedd ACLlau ddatblygu.

## Cwestiwn 66: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi ymdrin â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Manteisiodd 26 o ymatebwyr ar y cyfle i godi materion eraill.

<u>Materion eraill i'w hystyried</u>

Nododd rhai ymatebwyr y dylid ystyried yr heriau sy'n gysylltiedig ag ymgyngoreion statudol oherwydd eu rôl yn y system gynllunio, gydag ymatebydd o'r sector busnes yn nodi y gallant beri oedi i geisiadau. Codwyd cydnerthedd disgyblaethau cysylltiedig eraill hefyd fel materion y mae angen eu hystyried. Nododd ymatebydd o ACLl y dylid ystyried y gwaith ychwanegol sy'n gysylltiedig â cheisiadau y penderfynir arnynt gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru.

<u>Newidiadau eraill i'r system gynllunio</u>

Gwnaed sylwadau hefyd ar wneud newidiadau i'r system gynllunio. Roedd awgrymiadau yn cynnwys lleihau nifer yr ACLlau, ailwampio proses y CDLl, lleihau nifer y ceisiadau a ystyrir gan bwyllgor cynllunio ac adolygu'r diffiniad o ddatblygiad mawr. Nododd ymatebydd arall fod angen i'r system gynllunio wneud mwy i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

Ffioedd, incwm ac adnoddau

Gwnaed rhai sylwadau ar y rheoliadau ffioedd. Nododd ymatebwyr y dylid dileu'r 'cynnig am ddim' a darpariaethau ad-dalu, gwneud darpariaeth i gario ffioedd drosodd i'r flwyddyn ganlynol a dileu'r terfyn uchaf ar ffioedd. Awgrymwyd ffyrdd eraill o ennill incwm hefyd megis perchenogion tir yn talu ffi er mwyn helpu'r ACLl i hyrwyddo safleoedd yn y CDLl.

Cododd ymatebydd o elusen bryderon nad oedd datblygiadau cadarnhaol, megis gwaith cadwraeth, wedi'u heithrio rhag ffioedd ac, yn lle hynny, y byddent yn gorfod talu'r un ffioedd â datblygiadau masnachol. Yn yr un modd, nododd ymatebydd o'r sector cyhoeddus nad oedd y newidiadau wedi ystyried cyd-destun ceisiadau ôl-weithredol, hawliau datblygu a ganiateir a chydsyniadau adeiladau rhestredig ar gyfer ymgymerwyr statudol, lle mae rhai mathau o waith datblygu wedi'u heithrio rhag ffioedd ond nad yw mathau eraill o waith datblygu wedi'u heithrio rhagddynt.

Nododd ACLl, er ei bod yn cytuno â'r egwyddor o adennill costau llawn, fod angen ymgynghorwyr i helpu i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o geisiadau mewn materion arbenigol megis ecoleg. At hynny, nododd rhai ymatebwyr fod angen mwy o adnoddau ar gyfer ecoleg megis cyflwyno swyddogion cydymffurfedd ecolegol a chanllawiau ar Asesiadau Seilwaith Gwyrdd ac enillion net Bioamrywiaeth. Gofynnodd rhai ymatebwyr hefyd am ganllawiau pellach ar faterion megis dilysu, ad-dalu ffioedd a Chytundebau Perfformiad Cynllunio er mwyn gwella'r system gynllunio.

Nododd ymatebydd o'r sector gwirfoddol, yn ogystal ag atebion o ran incwm, y dylid ystyried atebion eraill er mwyn mynd i'r afael â phrinder staff megis technoleg, hyfforddiant a rhannu arferion da.

Asesiad effaith

Yn olaf, cododd ymatebydd o grŵp â buddiant bryderon nad oedd asesiad effaith wedi'i gynnal mewn cysylltiad â'r ymgynghoriad ac, felly, roedd yn pryderu ynghylch cynlluniau ar gyfer cynyddu ffioedd yn cael eu datblygu.

## Ymateb y Llywodraeth i Gwestiwn 66

Rydym yn ddiolchgar am yr ymatebion a gafwyd i'r cwestiwn eang hwn. Mae ymateb y Llywodraeth i'r cynigion penodol yn nodi ein safbwynt ar lawer o'r materion a godwyd. Ystyrir yr ymatebion hynny sy'n ymwneud â materion ehangach mewn gwaith a chynigion yn y dyfodol.

## Atodiad A – Rhestr o'r ymatebwyr yn ôl categori

| Rhif | Enw'r ymatebydd | Categori |
|---|---|---|
| 001 | Cyngor Tref Llanandras a Norton | Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus |
| 002 | Koru Ecology Associates Ltd | Busnes/Ymgynghorydd |
| 003 | Cyfoeth Naturiol Cymru | Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus |
| 004 | Cyngor Sir Caerfyrddin | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 005 | Comisiwn Dylunio Cymru | Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus |
| 006 | Cyngor Castell-nedd Port Talbot | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 007 | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru | Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus |
| 008 | Castle Green Homes | Busnes/Ymgynghorydd |
| 009 | Llanmoor Development Co Limited | Busnes/Ymgynghorydd |
| 010 | Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol Cymru | Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus |
| 011 | Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Buddiant |
| 012 | Cyngor Tref Llangollen | Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus |
| 013 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 014 | Cyngor Cymuned Llandysilio a Chyngor Cymuned Llandrinio ac Arddlin | Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus |
| *015 | Dienw | Grwpiau eraill (nas rhestrir ) neu unigolyn |
| *016 | Dienw | Grwpiau eraill (nas rhestrir ) neu unigolyn |
| *017 | Dienw | Busnesau/Ymgynghorwyr |
| *018 | Dienw | Grwpiau eraill (nas rhestrir ) neu unigolyn |
| 019 | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru | Cyrff Proffesiynol / Grwpiau â Buddiant |
| 020 | The MCS Foundation | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Buddiant |
| 021 | Welsh Slate and Breedon Trading Ltd | Busnesau/Ymgynghorwyr |
| 022 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 023 | Jones Bros Ruthin Co Ltd | Busnes/Ymgynghorydd |
| 024 | RenewableUK Cymru | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Buddiant |
| *025 | Dienw | Grwpiau eraill (nas rhestrir ) neu unigolyn |
| 026 | Barratt Redrow | Busnes/Ymgynghorydd |
| 027 | Cyngor Abertawe | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| *028 | Dienw | Busnes/Ymgynghorydd |
| 029 | Cyngor Sir Ynys Môn | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 030 | Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru | Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus |
| 031 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 032 | Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Buddiant |
| 033 | Centrica | Grwpiau eraill (nas rhestrir ) neu unigolyn |
| 034 | Un Llais Cymru | Cyrff Proffesiynol/Grŵp â Buddiant |
| 035 | BT Group | Busnes/Ymgynghorydd |
| 036 | NFU Cymru | Cyrff Proffesiynol/Grŵp â Buddiant |
| 037 | Cyngor Dinas Casnewydd | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 038 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 039 | Taylor Wimpey UK Ltd | Busnes/Ymgynghorydd |

| | | |
|---|---|---|
| 040 | Cwmpas | Cyrff yn y Sector Gwirfoddol/Grwpiau Cymunedol |
| 041 | Y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynol | Cyrff Proffesiynol/Grŵp â Buddiant |
| 042 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 043 | Cyngor Gwynedd | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 044 | Wind2 Limited | Busnes/Ymgynghorydd |
| 045 | Nesta | Cyrff yn y Sector Gwirfoddol/Grwpiau Cymunedol |
| 046 | Cyngor Bro Morgannwg | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 047 | Cyngor Sir Powys | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 048 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 049 | Penseiri Dobson:Owen | Busnesau/Ymgynghorwyr |
| *050 | Dienw | Busnesau/Ymgynghorwyr |
| 051 | Solar Energy UK | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Buddiant |
| 052 | Tai Wales and West | Cyrff yn y Sector Gwirfoddol/Grwpiau Cymunedol |
| 053 | Energy UK | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Buddiant |
| *054 | Dienw | Grwpiau eraill (nas rhestrir ) neu unigolyn |
| 055 | Cyngor Sir Fynwy | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 056 | Cyngor  Dinas Tyddewi | Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus |
| 057 | Associated British Ports (ABP) | Busnesau/Ymgynghorwyr |
| 058 | Ymddiriedolaeth Arbed Ynni | Busnesau/Ymgynghorwyr |
| *059 | Dienw | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Buddiant |
| 060 | Regen | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Buddiant |
| *061 | Dienw | Grwpiau eraill (nas rhestrir ) neu unigolyn |
| 062 | Historic Houses | Grwpiau eraill (nas rhestrir ) neu unigolyn |
| 063 | Network Rail Infrastructure Ltd | Asiantaeth y Llywodraeth/Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus |
| 064 | Cyngor Sir Ceredigion | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 065 | Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol | Grwpiau eraill (nas rhestrir ) neu unigolyn |
| 066 | Coed Cadw | Cyrff yn y Sector Gwirfoddol/Grwpiau Cymunedol |
| 067 | Cymdeithas Swyddogion Archaeolegol Llywodraeth Leol Cymru | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Buddiant |
| 068 | RSPB Cymru | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Buddiant |
| *069 | Dienw | Grwpiau eraill (nas rhestrir ) neu unigolyn |
| 070 | Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 071 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 072 | CLA Cymru | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Buddiant |
| 073 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Grwpiau eraill (nas rhestrir ) neu unigolyn |
| 074 | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 075 | Stride Treglown | Busnesau/Ymgynghorwyr |
| *076 | Dienw | Cyrff Proffesiynol/Grwpiau â Buddiant |
| 077 | Asda Stores Limited | Busnes/Ymgynghorydd |
| 078 | Cyngor Dinas Caerdydd | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 079 | CIH Cymru | Corff Proffesiynol |
| 080 | SP Energy Networks | Busnes/Ymgynghorydd |
| 081 | Cyngor Sir y Fflint | Awdurdod Cynllunio Lleol |

| Mae ymatebion hwyr wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad ond nid yn y dadansoddiad ystadegol | | |
|---|---|---|
| 082 | Cyngor Sir Penfro | Awdurdod Cynllunio Lleol |
| 083 | Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru | Asiantaeth y Llywodraeth / Corff Arall yn y Sector Cyhoeddus |

(*) Lle mae ymatebwyr wedi gofyn yn benodol inni beidio â chyhoeddi eu manylion, byddant yn ymddangos fel ‘dienw’ o dan y categori. Mae pob unigolyn preifat a ymatebodd hefyd wedi'i restru fel ‘dienw’ er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data.